YR YMOFYNYDD.

RHIF. 2.] CHWEFROR, 1859. [AIL GYFRES.

"PROFWCH BOB PETH; DELIWCH YR HYN SYDD DDA."—PAUL.

Y MADOGWYS.

LLAWER iawn o son sydd wedi bod am lwyth o Indiaid Cymreig ar y Cyfandir Americanaidd; llawer iawn o dystiolaethau yn eu cylch; a llawer o ddadleuon dros ac yn erbyn eu bodoliaeth.

Gwreiddyn yr hanes oedd y traddodiad i un o feibion Owen Tywysog Gwynedd yn y 12fed ganrif, sef yn O.C. 1170, fyned i'r môr gyda thrichant o'i gydwladwyr, mewn deg llong, heb fod neb, fel y dywed y Trioedd, yn gwybod i ba le yr aethant. Dyna ffurf y traddodiad cyn darganfyddiad America yn y flwyddyn 1492 gan Christopher Columbus; ac er y dichon fod tybiad iddo dirio mewn rhyw wlad ddieithr, nid oes un prawf ysgrifenedig fod y cyfryw dybiad mewn bodoliaeth; ond wedi darganfyddiad Columbus aeth y dybiaeth yn gyffredin iddo ef dirio yn yr Amerig. Hònodd Humphrey Llwyd hynny yn ei gyfieithiad ef o'r Croniclau Cymreig yn 1559, er nad oes dim o'r fath yn y Croniclau gwreiddiol; ac yn 1584 cyhoeddodd Dr. David Powell honiadau Llwyd gyda thybiadau ac ychwanegiadau o'i eiddo ef ei hun; ond dywed Llwyd yn bendant i'r Cymry golli eu hiaith, ac ymgymmysgu â thrigolion y cyfandir; y mae Powell yn ail-adrodd yr honniad heb arwyddo un gwrthwynebiad; ac y mae yn amlwg nad oedd na Llwyd na Phowell, nac hyd yn nod James Howell, yr awdurdod cyntaf am yr honniad ynghylch "bedd-argraff Madog yn Mexico," yn breuddwydio dim fod canlynwyr honnedig Madog yn hanfodi fel llwyth annibynol, ac yn parhau i siarad yr iaith Gymraeg. Am hynny gellir rhannu hanes mordaith dybiedig Madog oddiwrth hanes y Madogwys, a thrin hwn ar wahan, gan adael y llall hyd rhyw gyfnod arall.

Bydd yn gyfleus i ddosbarthu hanes y Madogwys yn dair rhan, sef,

1. Y Tystiolaethau yn eu cylch.
2. Holiadau am danynt.
3. Beirniadaeth ar yr hanes.

A thriniwn y pynciau hyn yn y drefn ragflaenol.

1. TYSTIOLAETHAU AM Y MADOGWYS.

Hwyliodd Columbus tua'r deheu orllewinol, a thiriodd ar Ynysoedd Bahama, yng nghyfyngfor Mexico; ond y cyntaf a ddarganfyddodd y rhan ogleddol, a elwir yn awr yr Unol Daleithiau, oedd Sebastian Cabot, yn 1497, o dan awdurdod oddiwrth Harri'r Seithfed, brenin Prydain. Cymmerwyd meddiant

o'r wlad yn enw Lloegr, ac aeth llawer a Brydeinwyr yno i fyw. Yn ystod amser sefydlodd trefedigaethau yno; ar annogaeth Siarls y Cyntaf aeth llawer o drigolion Lloegr i'r wlad honno; a gyrodd gormes y brenin hwnnw lawer ereill i ddilyn yr esiampl. Yn O. C. 1680 arweiniodd y Crynwr William Penn amryw o ganlynwyr yno, a llawer o honynt yn Gymry, a sefydlodd dalaith Pensylvania. Ym mhlith ei ganlynwyr oedd Crynwr *(Quaker)* o'r enw Thomas Lloyd; yn New York cyfarfu efe ag un Morgan Jones, offeiriad, a mab i John Jones o Faesaleg, yn Sir Fynwy; ac oddiwrth y gwr hwn y cafwyd y crybwylliad cyntaf am y Madogwys. Ysgrifenodd Jones lythyr, dyddiedig Mawrth 10fed, 1686, yn yr hwn y traethai fel y canlyn:—

"Tra yr oedd efe yn aros mewn lle a elwid Oyster Point, penderfynodd efe a phump o gyfeillion, o herwydd ofn newynu, i fyned trwy yr anialwch tua thref a elwid Roanock; ond cymmerwyd hwynt yn garcharorion gan lwyth o'r Indiaid Tyscoraraidd; a bwriadwyd eu rhoddi i farwolaeth gan dybied mai ysbiwyr oeddent. Pan glywodd Jones y penderfyniad hwn llefodd yn yr iaith Gymraeg [ysgrifenai yn Saesneg], 'a ydwyf wedi dianc cymmaint o beryglon, i gael fy nharo yn awr yn fy nhalcen fel ci?' ac yna daeth Indiad tuag atto, ac a'i cymmerodd yn ei freichiau, dywedodd yn Gymraeg 'na chawsai farw,' a thalodd i Ymerawdwr y Tyscorariaid am ei gael yn rhydd. Un o flaenoriaid milwrol y Daegiaid oedd hwn; cymmerodd hwn ef a'i gyfeillion i dref y Daegiaid, lle y cawsant gyflawn roesaw am bedwar mis. Siaradai Jones â hwynt yn y iaith Gymraeg; pregethodd iddynt dair gwaith yr wythnos yn y iaith honno: ymgynghorent ag ef ynghylch unrhyw beth a fuasai yn dywyll yn y bregeth; ac ar eu hymadawiad rhoddasant iddynt bob peth ag oedd yn angenrheidiol arnynt. Oedd yr Indiaid hyn yn trigfannu ar afon Pontigo, yn agos i Cape Atros." Danfonodd Thomas Lloyd y llythyr at ei frawd, Charles Lloyd o Dolobran, yn Sir Drefaldwyn; defnyddiwyd ef yn Nrych y Prif Oesoedd; ac y mae wedi ei gyhoeddi amryw weithiau.

Traetha Cenhadwr o'r enw Beatty, yn 1766, iddo glywed am offeiriad a waredwyd yn yr un modd. Oedd iaith yr Indiaid a'i cymmerasant yn garcharor ychydig yn wahanol i'r eiddo ef; ond daeth i'w deall yn fuan. Yr oedd ganddynt lyfr; cafodd efe mai Bibl ydoedd, ac esboniodd ef iddynt, er eu mawr foddlonrwydd; a dychwelodd dan addewid i ddanfon cenhadon atynt i ddysgu Cristnogaeth iddynt; ond bu farw cyn cyflawni ei amcan.

Ceir hanes gyffelyb am Gymro o'r enw Morris Gruffydd, ar awdurdod boneddwr Americanaidd o'r enw Childs. Ysgrifenwyd yr hanes gan un Harri Toulmin, mab i'r Parch. Dr. Toulmin o Taunton, a addawodd ar ei fynediad i America anfon hanes am y Madogiaid, os clywai am danynt. Cyhoeddwyd y llythyr mewn dau newyddiadur Americanaidd, yn y *Kentucky Palladium*, Rhagfyr 12fed, 1804, ac yn yr *Eastern Argus*, Chwefror 8fed, 1805; ac oddiwrth yr olaf cyfodwyd ef i un o bapyrau Llundain a elwid y *Volunteer*, Ebrill 28ain, 1805. Cyfieithiwyd ef i'r Gymraeg gan Thomas Roberts o Lanrheidol; argraffwyd y cyfieithiad mewn dau rifyn o'r cyhoeddiad hynafiaethol a thrimisol a elwid y Greal, yn Alban Hefin (Mehefin y 21ain), ac Alban Elfed (Medi 21ain), 1805; ac ail argraffwyd ef, ond heb un addefiad o ba le y cafwyd ef, yn yr *Iforydd* am Ebrill, 1842.

Yn awr am y llythyr. "Mi af ym mlaen, meddai Mr. Toulmin, yn yr adroddiad mal y derbyniais gan Mr. Childs:—

Morris Gruffydd, genedigol o Gymru, pa wlad a adawodd pan oedd o gylch un ar bymtheg oed, a gymerwyd yn garcharor gan nifer o'r Shawenwys, yn agos i Gaer-

fosses, wrth fiaen Afon y Roanoc, yn Virginia, ac a ddygwyd i wlad y Shawenwys. Ar ol aros yno ddwy flynedd a hanner, efe a wybu fod pump o wŷr ieuainc o'r genedlaeth hono yn deisyfu yn fawr chwilio allan y Missouri. Efe a erfyniodd, ac a gafodd ganddynt ei adael i fod yn un o'u cymdeithas. Hwy oll a gychwynasant gyda chwech o rych-ddrylliau (*rifles*) da, a chwech pwys o bylŏr (*powder*) bob un, o'r hyn yr oeddynt yn ddiammheu yn bur ofalus. Ar gyrhaedd aber Afon y Missouri, hwy a synasant wrth ganfod y fath odidog ymddangosiadau anghyffredin, drwy gyd-gymysgiad dwr llwyd y Missouri a thra-dysglaer elfen y Mississippi. Hwy a arosasant ddau ddydd neu dri, gan ddifyru eu hunain gyda'r fath newydd ymddangosiad iddynt hwy. Y pryd hwn y penderfynasant eu gyrfa, ac a gymerasant yr hon a ddygwyddodd fod agosed i rediad yr afon, nes oeddynt yn fynych yn dyfod i'w golwg hi, wrth fyned yn mlaen ar eu taith. Ar ol teithio o gylch deg diwrnod ar hugain, trwy dir teg, amaethyddol, a choediog, daethant i weunydd prydferth agored, ar ba rai ni thyfai ond digonedd o laswellt hir. Yr oeddynt ol unol yn rhagori yn eu maintioli, rhai yn wyth neu ddeg milldir drosodd, ond yr oedd un o honynt cyhyd fel y buont dri diwrnod yn ei cherdded drwyddi. Wrth fyned trwy y waun fawr yma bu yn gyfyng iawn arnynt o ran eisiau bwyd a dwfr, gan na welsent aderyn nac anifail; ac er bod ynddi ddigonedd o ffynnonau heilltion, yr oedd y dwfr croew yn brin iawn. Yn un o'r gweunydd hyn, yr oedd goferau y ffynnonau heilltion yn rhedeg i byllau bychain, pa rai, mal yr oedd boeth y tywydd, yr oedd y dwfr wedi rhyw gryn sychu, a gadael eu hymylau yn orchuddedig gan halen, mal yr oeddynt yn cael eu gwala, a gallent yn hawdd gasglu teleidiau o honaw. Wrth deithio drwy y gweunydd buont hefyd mor llwyddiannus a lladd anifail, yr hwn oedd naw neu ddeg troedfedd o uchder, ac o gorffolaeth cyfatebol. Gwelsant ddau o'r un rhywogaeth o'r blaeu, a phedwar wedi hyny,—yr oeddynt yn gyflym o draed, ac nid oedd ganddynt ysgithrddannedd na chyrn. Ar ol myned drwy y waen hir, peidiasant a myned i un o honynt, ond a allent weled drosti, heb ddiwallu eu hunain â digon o hyddgig i barhau rhai dyddiau. Ar ol ymdeithio amser hir drwy y gweunydd, daethant at gloddfa o fwn plwm, lle y toddasant y mwn, ac a gymerasant gymaint ag oedd eisiau o honaw.

Ar ol hyny daethant at ddwy o gloddfa efydd, un o honyut oedd dair milldir trwodd,—ac mewn amrywiol fanau cyfarfuasant â chreigiau o fwn efydd cymaint a thai. Pan o gylch taith pymtheg niwrnod oddiwrth yr ail gloddfa efydd, gwelsant fynyddoedd gwynion, er eu bod hefyd yn ngwres haf, ymddangosent dan gaenen o eira. Y golygiad hwn, gellir meddwl, a wnaeth iddynt ryfeddu yn ddirfawr, ond ar eu dyfodiad yn nes i'r mynyddoedd, canfuasant mai yn lle eira eu bod wedi eu gorchuddio yn anfeidrol gan dywod gwyn. Yr oeddynt yn y cyfamser wedi tramwy drwy o gylch deg cenedl o Indiaid, oddiwrth ba rai y derbyniasant lawer o gyfeillgarwch.

Arfer y cymdeithion oedd siarad ol unol, pob un yn ei dro, a phan fyddai iaith un genedl yn anwybodus iddynt, dyledswydd y siaradydd oedd dwyn ar ddeall eu meddyliau gydag arwyddion cymhwys, ac na byddai y lleill yn ymyru â hi. Dirfawr eu blinder yn cerdded drwy dywod dwfn y mynyddoedd, ond o'r diwedd esmwythasant eu hunain oddiwrth y trallod hwn, gan ganlyn rhediad yr afon fas a gwaelod gwastad, gwnaethant eu ffordd i ben mynydd yn lled gyfleus. Ar ol myned heibio y mynyddoedd, daethant i randir godidog, trwy ba un y teithiasant amryw ddyddiau,—hwy yn ddamweiniol a gyfarfuasant â thri o bobl wynion o rith Indiaid. Morris Gruffydd yn union a ddeallodd eu hiaith, canys yr oedd yn Gymraeg ddigymysg, er eu bod weithiau yn gwneyd defnydd o rai geiria unad oedd yn gydnabyddus; beth bynag, gan ddygwydd mai tro un o'i gyfeillion, y Shawenwys, oedd i wasanaethu yn siaradwr, neu yn hytrach yn ddeonglydd, efe a gadwodd ei hun yn bur ddystaw, ac ni roes iddynt un amnaid ei fod yn deall iaith eu cymdeithion newyddion. Ar ol myned efo nhw daith pedwar neu bump niwrnod, daethant i dref y bobl wynion hyn, lle y gwybuant fod yr holl genedl o'r un fryd, ac oll o'r un wedd Ewropaidd. Y tri dyn a'u cymerasant drwy y dref o gylch pymtheg milldir, nes y daethant hyd at eu cynghor-dy. yn mha un y cynnaliwyd cyfarfod o'r brenin a phendefigion y deyrnas yn union; parhaodd y gymanfa dri diwrnod, ac yn gymaint nad oeddynt yn tybied fod y dyeithriaid yn gydnabyddus â'u hiaith, goddefasant iddynt fod yn eu plith ar eu cynghoriadau. Y pwnc mwyaf o flaen y gynnulleidfa oedd, pa ymddygiad a ddylai fod tuag at y dy-

eithriaid; oddiwrth eu harfau tân a'u bwyill, barnwyd eu bod yn bobl rhyfelgar yr olwg,; yr oeddynt yn tybied eu bod wedi eu hanfon i edrych allan am wlad i'w cenedl, ac os goddefynt iddynt ddychwelyd y gallesid dysgwyl lliaws o oresgynwyr gallwog; ond os rhoddid y chwech dyn hyn i farwolaeth, ni byddai dim gwybodaeth am eu gwlad hwy, ac y caent hefyd fwynhau eu meddiannau mewn diogelwch. Yn y diwedd barnasant eu rhoddi i farwolaeth. Morris Gruffydd y pryd hyny a feddyliodd fod yn amser iddo siarad. Cyfeiriodd ei ymadrawdd at y gymanfa yn Gymraeg. Hysbysodd iddynt nad oeddynt wedi eu hanfon gan un genedl, ond eu bod gwedi eu hanog yn unig gan eu hanian ymofyngar eu hunain, ac nad oedd ganddynt ddim meddyliau gelyniaethol; mai eu bwriad oedd olrhain y Missouri i'w dechreuad, ac y dychwelynt i'w gwlad efo y cyfarwyddiadau a gawsynt, heb un fath dueddiad i aflonyddu esmwythder eu cydnabyddiaeth newydd.

Syndod disymwth a ymddangosodd yn ngwedd, nid yn unig y gynnulleidfa yn gyffredinol, ond hefyd yn ngwedd ei gyfeillion y Shawenwys, pa rai yn eglur a ganfuasant bod ei iaith ef yn ddealladwy i bobl y wlad. Cyflawn hyder a roddasant ar unwaith i'w draethiadau. Y brenin a aeth yn mlaen, ac a ysgydwodd law ag ef, a gadawsant heibio eu bwriad o'i roddi ef a'i gyfeillion i farwolaeth; ac o'r amser hyny allan ymddangosasant tuag atynt yn y modd mwyaf cyfeillgar.

Morris Gruffydd a'r Shawenwys a arosasant wyth mis yn y wlad; ond hwy a ddigalonwyd yn eu hamcanion a ddilyn y Missouri hyd ei dechreuad gan gynghorion gwyr y wlad, pa rai a hysbysasant eu bod hwy wedi myned daith blwyddyn i fyny yr afon, ond ei bod cymaint yno ag yn eu gwlad eu hunain. Am hanes y bobl yma, ni fedrai ef gael boddlondeb. Yr unig hanes a fedrent roddi oedd, bod eu hynafiaid wedi dyfod i fyny yr afon o wlad bur bell. Nid oedd ganddynt (am a wyddai ef) lyfrau, cofrestrau, nag ysgrifeniadau. Nid oeddynt yn cydymgymysgu ag un genedl arall trwy briodi: nid oedd un dyn melynddu yn eu gwlad; eu rhifedi oedd ddirfawr; yr oedd eu sefyllfeydd yn cyrhaedd hyd yr afon dros ddeng milldir a deugain, ac yr oedd o fewn hyny o le dri o aberoedd anferthol eu maintioli, pa rai a redynt i'r Missouri; ar lanau y rhai hyny yr oeddynt gwedi sefydlu. Yr oedd ef yn tybied bod o gylch 50,000 o wyr galluog i gynnal arfau yn y wlad.

Eu gwisgiadau oedd o grwyn wedi eu trin yn dda. Eu tai oedd wedi eu hadeiladu â physt sythion, a rhisg coed; yr unig erfyn oedd ganddynt i'w tori oedd bwyill o geryg Nid oedd ganddynt haiarn. Eu harfau oedd bwa a saethan. Yr oedd ganddynt ychydig o arian wedi ei guro â cheryg, a'i wneyd yn addurniadau breision, ond nid o ymddangosiad hardd. Nid oedd ganddynt na cheffylau, gwartheg, defaid, moch, nac unrhyw anifeiliaid dofion eraill. Yr oeddynt yn byw wrth hela. Ni chrybwyllodd un gair am eu crefydd.

Yr oedd gan Morris Gruffydd a'i gyfeillion fwyill heirn mawrion efo hwynt, efo y rhai y torasant goeden i wneyd ewch i ddychwelyd yn ol ynddo; ond yr oedd eu bwyill mor werthfawr, a dynion y wlad mor awyddus i'w trin, fel na buont ond ychydig iawn o amser yn ei adeiladu. Pan orphenwyd y gwaith yma, bwriadasant ymadael â'u cyfeillion newyddion.

Morris Gruffydd, beth bynag, a addawodd ymweled â hwy ar ol hyny. Dychwelasant i lawr yr afon yn lled ehwimwth, ond yn fynych mewn enbydrwydd erchyll o achos gwyllt rediad yr afon, yn enwedig pan oeddynt yn myned heibio y myuyddoedd gwynion. Pan gyrhaeddasant wlad y Shawenwys, yr oeddynt wedi bod oddiyno o gylch dwy flynedd a hanner. Yr oedd Mr. Gruffydd yn dywedyd eu bod yn myned oddeutu pum milldir bob dydd.

Ni arosodd ond ychydig o fisoedd gyda yr Indiaid ar ol dychwelyd, gan i gyfleusdra gynnyg iddo i gyrhaedd ei gyfeillion yn Virginia. Daeth efo helwyr, pa rai oeddynt Indiaid, i flaen dyfroedd Afon y Glô, sydd yn rhedeg i'r Afon Newydd, nid pell tu uchaf y Rhaiadrau; yno y gadawodd efe y Shawenwys, ac a gyrhaeddodd y sefyllfeydd ar y Roanoc.

Yr oedd Mr. Childs yn ei adnabod cyn iddo gael ei gymeryd yn garcharor, ac efe a'i gwelodd ychydig o ddyddiau ar ol ei ddychweliad, pryd y rhoes yr hanes rhagflaenol. Yr oedd Morris Gruffydd yn cael ei gyfrif yn gyffredinol yn ddyn diysgog a geirwir. Byddai Mr. Childs bob amser yn rhoddi llawn hyder a chred yn ei han-

esion am dano ei hun a'i deithiau; ac nid oedd yn amheu am y gwirionedd o'r hyn a ddywedodd, mwy na phe buasai wedi gweled y cwbl ei hun. Pa un ai bod Morris Gruffydd yn fyw yn awr ni wyr efe ddim.

"Pa un ai bod ei amcanion ef yn gywir ai nad ydynt, ni a gawn well cyfleusdra i farnu ar ddychweliad y Cadben Lewis a'r Cadben Clarke, y rhai, er fe allai ddygwydd na bydd iddynt dreiddio cyn belled ag y dywedodd M. Gruffydd y bu ef, gallant mae yn debygol ddeall digon am y wlad, mal y bo i ni farnu pa un a ydyw yr hanes a roddwyd gan M. Gruffydd yn wir ai yn anwir. "Wyf, Syr, eich gostyngeiddiaf wasanaethydd,

"HARRI TOULMAIN."*

Swyddogion y llywodraeth Americanaidd oedd y Capteniaid Lewis a Clarke, wedi eu pennodi, gyda deugain o ddynion, i ddyfod i chwilio y wlad ar ymylau y Missouri o'i arllwysiad hyd ei tharddiad. Deuant hwy dan ystyriaeth etto.

Oedd yr Indiaid hyn ar flaenau Afon Missouri, ym mhell oddiwrth drigfanau dynion gwynion; a gelwid hwynt y *Daeg*iaid, neu Daegwys; ond os gwir yr hanesion yr oedd amryw o lwythau Indiaidd ereill yn siarad Cymraeg; a dywed un Lieutenant Roberts, gynt o Sir Flint, iddo ef gyfarfod â "thywysog" yr *Asqwa Indians*, neu Asqwa-wys, yn Washington, prif ddinas yr Unol Daleithau, yr hwn a siaradai Gymraeg yn well na'r Cymro ei hun; cyfrifodd ar redeg yn Gymraeg gant neu ychwaneg; ac adnabyddodd fod Roberts yn Gymro wrth ei fod yn rhegu gwas mewn tafarndy, "Mi dy lainiaf di myn d—l." Mae amryw adroddiadau ereill o'r un fath.

Pobl grefyddol yw y Cymry; ac y mae yn adroddedig fod yr Indiaid Cymreig yn meddu yr un nodweddiad. Dywed un Captain Stewart fod llyfrau plagawd *(parchment)* ym mhlith Indiaid Cymreig a welodd efe, wedi eu hysgrifenu ag inc glas; ac na allasai efe na Chymro oedd gydag ef ddarllen y llyfrau, ond gallasai y Cymro siarad â'r bobl. Mewn ystori arall ceir son fod Bibl yn eu plith, ond na allai yr Indiaid ei ddarllen; a dywedir i dri o offeiriaid ymweled ag Indiaid Cymreig, a dychwelyd a *hen Fiblau Cymreig* oddiwrthynt.

Ymwelwyd ag Indiaid Cymreig gan Mr. Binon, o'r Coetty, yn Sir Forganwg; yr hwn a ddywedodd wrth Iolo Morganwg fod yr Indiaid hyn yn siarad Cymraeg gyda "llawer mwy o burdeb na thrigolion Cymru"; fod hen adeiliaid yn eu plith—un yn debyg i Eglwys adfeiliedig, ac arall yn debyg i hen gastell Cymreig. Dangosasant lyfr mewn *llawysgrif* iddo, yr hwn a gadwent yn ofalus, am y cynnwysai eu dirgelion crefyddol. Bu prophwyd dyeithr yn eu plith ychydig cyn hyny, yr hwn a esponiodd y llyfr iddynt; ond nid oedd Mr. Binon yn ei ddeall; a thaer erfyniasant arno ddanfon rhyw un attynt i'w egluro.

Dywedir fod traddodiad yn eu plith i'w tadau ddyfod dros y môr o wlad

* Mae yr hanes yn yr *Iforydd* yn terfynu yn wahanol, sef fel y canlyn:—

"Felly ninau, nid oes genym yr un sail i ammheu geirwiredd yr hanes uchod, mwy na'r boneddwr Childs; ac hyderaf y trosir y ffeithiau i ni am danynt heb fod yn hir, sef ar ddychweliad y Cymro gwiwglodus hwnw, pa un sydd wedi cymeryd ei daith er cael gafael ynddynt. Llwyddiant iddo er eu cael, fel y caffom ninnau yr anrhydedd o anfon atynt egwyddorion cedyrn, a daionus weithrediadau Iforiaeth, yw dymuniad eich ffyddlawn a'ch diysgog frawd, RHYS AP TEWDWR."

Dichon fod argraphiad arall rhwng y *Greal* a'r *Iforydd*, ac mai J. T. Roberts, ynghylch 1820, a gyfeirir atto yma.

bell yn y dwyrain; ac yr oedd y traddodiad yn myned yn fanylach bob tro y traddodid ef. Yn ei gyflawn ffurf y mae i'r perwyl hwn, iddynt ddyfod o wlad a elwid Gwynedd, ym *Mhrydain Fawr;* iddynt lanio yn Florida, ac esgyn yr afonydd Mississippi a'r Missouri; ac i hyn gymmeryd lle 370 o flynyddau cyn 1766, fel y cyfrifai yr Indiaid trwy osod glain ddu *(a black bead)* ar linyn am bob blwyddyn. Rhoddasant hanes gyflawn am y terfysg cartrefol a achosodd mordwyaeth Madog, yn y dull y mae yn argraffedig, i un Benjamin Sutton; gan y traethir i'r Madogwys ymadael yn 1170, y mae y cyfrif yn bur anghywir. Pe buasai Sutton yn fwy hyddysg, dichon y buasai yn traethu fod 596 o leiniau ar linyn yr Indiaid; ac y buasai yr anghywirdeb hwn yn cael ei hebgor.

Y mae dau neillduolrwydd arall yn perthyn i'r Indiaid Cymreig, sef yn flaenaf, eu bod yn siarad Cymraeg â Chymry, a Gwyddelaeg âg Ysgodogion; gan y ceir hanes gan filwr Albanaidd i Indiaid siarad Gaelaeg âg ef a'i was. Ac yn ail, fod enw llwythol yr Indiaid Gymreig, a'u trigfanau, yn wahanol, yn y gwahanol adroddiadau. Gelwir hwynt gan wahanol adroddwyr, Daegs, Padoucas, Madocoutes, Asquaws, White Indians, White Bearded Indians, Pawnees, Moquis, &c. Dywedir gan rai eu bod ar ochr orllewinol y Mississippi, gan ereill ar yr ochr ddwyreiniol; gan rai eu bod ar yr afon Missouri, gan ereill mai ar y Red River, a chan ereill mai ar Oregon yr oeddynt, filoedd o filldiroedd yn fwy gogleddol a gorllewinol; rhai a'u gosodant yn niffeithwch Canoldir America, a rhai ar lannau y Mor Tawel *(Pacific)*, tra y gosodai Morgan Jones hwynt ar lannau yr Atlantic, yn agos i Cape Hatteras a Pamlico Sound, ac yn Nhalaith North Carolina. Nid oes achos efallai dweyd fod holl led Cyfandir America, sef 4170 (neu dros bedair mil) o filldiroedd, rhwng y Pacific a'r Atlantic.

Gyda chymmaint a hyn o adroddiad, gadawaf y darllenydd am ennyd i ffurfio ei farn ei hun. T. S.

[Rhag i neb gael ei gam-arwain gan eiriau ein hysbysiad am y Madogwys (Rhif. Ion.), y mae yn gymhwys i ni sylwi nad *Traethawd Llangollen*, yr hwn sydd yn Saesonaeg, ond ei sylwedd, mewn llythyrau gwreiddiol ar y pwnc, a gynnygir i sylw ein darllenwyr.—Gol.]

HANES YR IUDDEWON.—Rhif. II.

Mae yr Iuddewon yn un o'r cenhedlaethau mwyaf hynod yn y byd; y mae eu hanes, yn enwedig mewn eysylltiad â'u crefydd, yn teilyngu sylw neillduol; mae yn cynnwys addysgiadau gwahanol iawn oddiwrth ddim a gawn yn hanesion cenedlaethau cyntefig eraill, oblegid mae yn dwyn i'n golwg ymddygiad neillduol Duw tuag atynt a'i ofal tadol am danynt. Yr Iuddewon, yn yr oesau boreuaf o'u hanes, ydynt yn adnabyddus wrth yr enwau Hebreaid ac Israeliaid; y genedl hynod hon, yr hon a elwir yn aml "pobl Dduw," a darddodd o Abraham, yr hwn a hânodd yn y ddegfed genhedlaeth yn Shem, mab hynaf Noah. Ei alwad gan Dduw, yr hyn a gymerodd le 1021 o flynyddau cyn genedigaeth y Messiah, sydd ffaith hynod mewn hanesyddiaeth, ac yn deilwng o sylw y darllenydd. Mewn ufydd-dod i orchymyn Duw, Abraham, yr hwn oedd fab i Terah, penteulu cyfrifol, a adawodd Ur y Caldeaid, gwlad ei enedigaeth, ac a breswyliodd gyda ei dad yn Haran. Talaith ydoedd Ur yn y gogledd ddwyreiniol o'r wlad yr hon sydd uwchlaw uniad y Tigris a'r Euphrates, a hi a fu wedi hyny yn wlad Unbenaeth

Babylon. Dinas oedd Haran yn y parth gogledd orllewinol ô Mesopotamia. Bernir fod Ur yn lle yr oedd eilunaddoliaeth yn uchel ei ben ynddo, ac o herwydd hyny galwodd Duw Abraham oddiyno, gydag amcan i'w wneud ef yn dad cenedl neillduol ac enwog.

Ar ol marwolaeth Terah, aeth Abraham, wrth orchymyn dwyfol, i wlad Canaan, yr hon a addawodd Duw iddo ef ac i'w hiliogaeth, y rhai oeddent i breswylio o fewn terfynau y wlad hono. Amcan Duw wrth neillduo un teulu fel hyn oddiwrth y lleill o ddynolryw, oedd cadw gwir grefydd yn y byd, sef cadw addoliad y gwir Dduw yn ddiogel rhag cael ei ddinystrio gan amlldduwiaeth, a pharotoi meddyliau dynion i dderbyn ac i ganfod rhagoroldeb yr oruchwyliaeth ag oedd i gael ei sefydlu gan brif genad y nefoedd, sef ei Fab, yr Arglwydd Iesu, yr hwn ydoedd o had Abraham, a thrwy yr hwn yr oedd holl lwythau y ddaear i gael eu *bendithio*.

Abraham, wedi ennill enwogrwydd trwy ei gyfoeth, ei rinweddau, a'i dduwioldeb, ac wedi myned trwy lawer o amgylchiadau o lwyddiant a chythryblon, a fu farw yn 175 mlwydd oed, ac a adawodd ar ei ol amryw feibion, o ba rai Isaac yn unig ydoedd fab yr addewid. Ishmael ei fab, o Hagar, ydoedd tad yr Arabiaid. I Isaac y ganwyd Esau a Jacob. Esau ydoedd tad yr Edomiaid, neu yr Idumeaid. O Jacob, yr hwn a gyfenwyd Israel, yr hânodd yr Israeliaid; ac addiwrth enwau deuddeg mab Jacob y cafodd deuddeg llwyth cenedl Israel eu henwi. Jacob a fu farw 1689 o flynyddau cyn y cyfnod Cristionogol; a chyn ei farwolaeth rhoddodd olwg broffwydoliaethol ar sefyllfa ei hiliogaeth am oesau i ddyfod, a chyfeiriodd, fel y bernir yn gyffredin, at ddyfodiad y Messiah, (Gen. pen. 49.) Yr oedd wedi ei ddwyn i'r Aipht trwy ddylanwad ei fab Joseph, a chladdwyd ef gan Joseph yn y man y gorchymynasai iddo. Mae amrywiol amgylchiadau Joseph, a'i ddyrchafiad yn yr Aipht, yn dangos gofal rhagluniaeth ddwyfol yn parotoi cyflawniad yr addewidion a wnaethpwyd i'r patriarch Abraham. Yr oedd Jacob yn caru Joseph yn fawr, ond yr oedd ei frodyr yn ei gashau ef; amcanasant ei ladd ef, ond gwedi ymgynghori â'u gilydd, a thrwy fod amgylchiad cyfleus yn ymgynyg, penderfynasant i'w werthu ef i'r Ismaeliaid, y rhai oeddent fasnachwyr mewn caeth-weision; y rhai hyn a'i dygasant ef i'r Aipht, ac fe'i prynwyd ef yno gan Potiphar, gwr mawr yn llys Pharaoh. Trwy gamgyhuddiad gwraig Potiphar, cafodd Joseph ei garcharu; ond o herwydd ei fedrusrwydd i ddeongli breuddwydion, rhyddhawyd ef o'r carchar, a dygwyd ef ger bron Pharaoh, brenin yr Aipht, yr hwn a'i gwnaeth ef yn swyddwr uchaf dan ei frenhiniaeth. Yn amser llywodraeth Joseph gwahoddwyd Israel a'i deulu i'r Aipht, o herwydd fod newyn yn ngwlad Canaan, a gwledydd eraill cyfagos, ond yr Aipht; cawsant breswylio yn ngwlad Gosen, bu Jacob yno 17 o flynyddau. Cafodd yr Israeliaid fywoliaeth gysurus yno tra bu byw Joseph; ond pan fu farw Joseph, yn y flwyddyn 1635 cyn Crist, nid oedd ganddynt wedi'n neb yno i'w hamddiffyn. Cyn pen deugain mlynedd gwedi marwolaeth Joseph, gorthrymid hwynt gan frenin nad adwaenai Joseph, a chan ei fod yn gweled fod yr Hebreaid gwedi dyfod yn genedl gref a lluosog yn yr Aipht, penderfynodd eu gwanychu, a'u gwneud yn gaethweision, a gorchymynodd i foddi pob plentyn gwryw a enid iddynt; er hyny cynyddu yr oeddent yn ddirfawr mewn rhifedi. Pan oeddent yn cael eu gorthrymu yn barhaus gan frenin yr Aipht, llefasant ar Dduw eu gwaredu, ac efe a'u gwrandawodd.

Moses, yr hwn a gadwesid yn fyw yn groes i orchymyn y brenin, a ddewiswyd yn arweinydd iddynt; a dygodd hwynt yn ddiangol trwy y Mor Coch,

yn yr hwn y boddodd Pharaoh a'i fyddin wrth eu herlid. Gofalodd Duw am yr Israeliaid yn yr anialwch trwy eu porthi â manna o'r nefoedd, a'u disychedu â dwfr o'r graig. Pan ymosododd yr Amalekiaid arnynt, gorchfygwyd hwynt gan Joshua, yr hwn wedi'n a fu yn arweinydd iddynt ar ol marwolaeth Moses.

Pan ddaethant i ymyl mynydd Sinai, rhoddodd Duw y ddeddf foesol iddynt; a thra bu Moses ar y mynydd yn ei chael, syrthiasant i eilunaddoliaeth, ac mewn canlyniad i hyn rhoddwyd tair mil o honynt i farwolaeth. Yn yspaid yr ail flwyddyn gwedi mynediad yr Israeliaid allan o'r Aipht, Moses a'u rhifodd, o ugain mlwydd oed ac uchod, ac a gafodd eu bod yn 60350, o ddynion galluog i fyned i ryfel, heblaw y Lefiaid. Oddeutu yr amser yma anfonwyd deuddeg o honynt i yspïo gwlad Canaan, y rhai, oddieithr Caleb a Joshua, a roisant ddesgrifiad anffafriol o honi, yr hyn a barodd i'r bobl i rwgnach; ac o herwydd y trosedd hwn parodd i bawb o honynt ag oeddent yn ugain mlwydd oed ac uchod pan yn dyfod allan o'r Aipht, i feirw yn yr anialwch, ond Caleb a Joshua. Fel cosp am eu grwgnachrwydd, dechreuodd yr Israeliaid grwydro yn yr anialwch yn y flwyddyn 1489 cyn Crist. Yn y cyfwng yma cafodd Korah, Dathan, ac Abiram, ynghyd a dau cant a hanner o'u cyfeillion, eu llyncu i fyny gan y ddaear o achos cyfodi o honynt yn erbyn Moses. Wedi i Israel ymdeithio yn yr anialwch am ddeugain mlynedd, arweiniwyd hwynt gan Moses i olwg gwlad Canaan; bu Moses farw ar fynydd Nebo; cafodd cyn ei farw olwg ar wlad yr addewid, ond nid aeth efe i mewn iddi.

Canlyniedydd Moses ydoedd Joshua, yr hwn yn y diwedd a arweiniodd y bobl i mewn i wlad Canaan: trödd dyfroedd yr Iorddonen yn eu hol i Israel i fyned trwodd i'w gwlad. Gorchfygasant *unarddeg-ar-hugain* o ddinasoedd mewn yspaid chwech mlynedd. Er cymaint oedd gofal y nefoedd wedi bod am y bobl hyn, yr oeddent yn aml yn dangos tuedd i adael addoliad y gwir Dduw, ac ymuno â'r cenhedloedd paganaidd a'u hamgylchynent i addoli eilunod; ac o herwydd y pechod hwn dygwyd hwynt yn aml i gaethiwed a chaledi. I'r dyben i'w gwaredu mewn amgylchiadau cyfyng o'r fath yma, trefnwyd arweinyddion a elwid Barnwyr, y rhai a'u llywodraethasant dros yn agos i dri chant a hanner o flynyddau. Cyflawnodd y rhai hyn ar brydiau wasanaeth mawr i'r genedl; gorchfygasant elynion eu gwlad, a rhoisant gynnorthwy mawr i Israel i ymsefydlu yn eu tiriogaethau, a chadw meddiant o honynt yngwyneb ymosodiadau eu gelynion arnynt. Yr oedd y bobl yn talu parch mawr i'r swyddwyr yma, ac i'r offeiriaid, ond nid oeddent eto yn cydnabod neb yn frenin arnynt ond Duw yn unig. Wedi hyny blinasant ar y ffurflywodraeth ag oedd ganddynt, a chwenychent gael brenin iddynt, fel yr oedd gan y cenhedloedd o'u hamgylch; rhoddwyd brenin iddynt, ond nid trwy arwyddion o gymeradwyaeth oddiwrth eu harweinydd dwyfol.

Saul, fab Kis, oedd brenin daearol cyntaf Israel. Eneiniwyd ef gan Samuel; cyhoeddwyd ef yn frenin yn y flwyddyn 1079 cyn y cyfnod Cristnogol. Yr oedd yn ddyn mawr golygus; yr oedd ei deyrnasiad yn llwyddiannus ar y dechreu; enillodd fuddugoliaethau pwysig ar ei elynion, yn enwedig yr Ammoniaid, y Philistiaid, a'r Amalekiaid; ond yr oedd y rhan olaf o'i fywyd yn annedwydd iawn, a'i deyrnasiad cyn ei diwedd yn aflwyddiannus; mewn rhyfel yn erbyn y Philistiaid cafodd ei fyddin ei dinystrio yn fawr—ei dri mab a laddwyd, ac yntau a syrthiodd ar ei gleddyf, ac a ddewisodd farw felly yn hytrach na syrthio i ddwylaw ei elynion. W. D.

Coleg Caerfyrddin. *(I'w barhau.)*

PAHAM NA BAE UNDODIAETH YN CYNNYDDU MWY?

Cyn belled ag y mae fy neall yn cyrhaedd yr ydwyf yn Undodwr, ac yn gorfoleddu yn yr enw. Er fy mod yn gwybod am rai, a'r rhai hyny hefyd yn Undodiaid, o leiaf mewn proffes, yn ewyllysio cael eu hadnabod wrth ryw gyfenwad gwahanol a gwell, nid ydwyf fi hyd yma wedi meddwl, na chlywed son, am un enw arall wrth yr hwn y dymunwn gael fy ngalw yn hytrach nag wrth hwn, sef Undodwr; ac megis y dywedodd Paul, "Nid oes arnaf gywilydd o efengyl Crist; oblegyd gallu Duw yw hi er iachawdwriaeth i bob un a'r sydd yn credu:" felly dywedaf finnau, nad oes arnaf gywilydd i gael fy ngalw a'm hadnabod yn Undodwr, a hyny oherwydd fy mod yn credu mai Undodiaeth yw'r Efengyl, ac mai'r Efengyl yw Undodiaeth.

Ond er mor oruchel a gwerthfawr yw gwirioneddau Undodiaeth yn fy ngolwg i, eto, fel y mae gwaethaf y modd, mae y rhan amlaf o lawer o Gristnogion proffesedig yn hollol anwybodus o honynt; ac y mae llawer oddiar ychydig wybodaeth arwynebol, dan ddylanwadau rhagfarn a phethau eraill, yn siarad yn ysgornllyd am danynt. Yn gwybod, ac yn rhwydd yn cyfaddef, nad yw terfynau Undodiaeth yn helaeth iawn, mai ychydig mewn cydmariaeth yw nifer ei phroffeswyr, a bod y lluaws, y rhai ni fedrant ymresymu a barnu yn amgen, yn rhy dueddol i ystyried hyn yn brawf digonol o'i chyfeiliornad, tueddwyd fi (un eithaf anghyfarwydd) i ysgrifenu y llythyr bychan hwn i'r *Ymofynydd*, gan ddymuno y bydd er rhyw ddaioni, o leiaf, gan daer obeithio na wna ddim drwg.

Llawer o weithiau yr ydwyf wedi clywed dywedyd fel hyn, a diau genyf fod pob Undodwr yn fynych wedi clywed yr un peth:—"Pe buasai Undodiaeth yn wir, paham na buasai yn gwneuthur mwy o gynnydd? paham na buasai mwy o son am dani? a phaham na buasai yn cael mwy o gymeradwyaeth yn y wlad yn gyffredin? Nid ydyw ei phleidwyr yn amlhau nemawr, os dim; nid oes un capel newydd yn cael ei adeiladu mewn un man, nag un argoel llwyddiant a buddugoliaeth yn weledig ar yr achos. Os gwirionedd yw Undodiaeth, paham nad elai yn gyflym rhag ei blaen, yn gorchfygu ac i orchfygu? Mae pob peth teilwng o gynnydd; mae y gwybodaethau a'r celfyddydau yn eu holl ranau yn myned rhagddynt braidd gyda chyflymdra'r wawr, a diwygiadau o bob math yn carlamu dros y wlad; ond y mae Undodiaeth yn ddigyffro, yn aros yn yr unman—*in statu quo*, ys dywed y cyfreithwyr."

Heb amau, yn y man hwn, gywirdeb yr haeriadau uchod, cymeraf yr hyfdra i ofyn a ellir yn rhesymol a diogel ystyried lluosawgrwydd coleddwyr unrhyw dyb yn brawf boddhaol o wirionedd y dyb hono? Nis gall un dyn pwyllog, yr wyf yn hyderus, ateb yn gadarnhaol. Mae amgylchiadau yn bod pryd y mae'r lluaws yn myned yn ychydig, a'r mwyafrif yn cael eu troi yn lleiafrif; ni byddai gan hyny ond ffolineb i neb i orphwys teilyngdod neu anheilyngdod unrhyw achos ar beth mor anwadal a chyfnewidiol a hyn. Hefyd, mewn gwahanol gymydogaethau, gwyddis mai nid yr un blaid sydd luosocaf bob amser; yr Eglwys Sefydledig sydd yn myned a'r oruchafiaeth yn y man hwn, yr Independiaid mewn man arall, &c. Felly safon anghywir iawn i dderbyn neu wrthod unrhyw athrawiaeth ydyw nifer ei hamddiffynwyr; ac nid oes neb, teilwng o'i alw yn ddyn, yn cael ei dueddu i amheu a drwgdybio ei syniadau crefyddol am nad ydynt yn eiddo y *majority*.

Y mae pob dyn gwirgar ac ymofyngar yn cymeryd poblogrwydd pleidiau

crefyddol cred am yr hyn ydyw werth. Y peth cyntaf y mae efe yn chwenych wybod yw'r Gwirionedd; ac yna, p'un ai derbyniol neu annerbyniol gan y bobl; y mae yn ei olwg ef yn berlyn ammhrisiadwy ei werth. Gwyr y rhai sydd yn chwilio am y Gwirionedd nad ydyw un mymryn tebycach o fod gan y llawer na chan yr ychydig, os gan un o'r ddau. Pe byddai ddichonadwy i mi fel Undodwr yn gyntaf gredu bod y lluaws Trindodiaid o bob sect, bod holl aelodau yr eglwysi a'r capeli, yn gyfryw trwy *ymchwiliad manwl* ac oddiar *argyhoeddiad trwyadl*, yna, efallai, gallai poblogrwydd Trindodiaeth i ryw raddau effeithio ar fy meddwl innau, a'm taeddu i dalu gwarogaeth i farn y *majority*. Ond yr wyf yn gwybod, a gwyr pawb sydd yn chwenych gwybod, mai ychydig mewn cydmariaeth sydd yn pwyso eu syniadau crefyddol mewn clorianau, ac mai yspryd *cydymffurfiaeth*, ac nid *argyhoeddiad*, sydd yn gorlenwi eglwysi a chapeli'r wlad. Yr ydwyt ti, ddarllenydd, efallai, yn synu ac yn ammau, ac yn barod i dybied fy mod yn myned yn rhy bell; ond yr wyf yn gofyn i ti mewn prysurdeb, a ddarfu i ti erioed feddwl cyn ac wedi myned yn aelod eglwys fod rhywbeth mewn un farn yn rhagori ar y llall? A ydwyt ti yn sicr, pe buaset yn rhoddi dy feddwl yn rhydd i chwilio, barnu, a phwyso, na buaset yn fuan yn hongian dy gredo bresenol yn ei lle priodol, ac yn ysgrifenu "Tecel" uwch ei phen, "Ti a bwyswyd yn y clorianau, ac a'th gaed yn brin"? Yr ydwyf fi, a barnu yn ddiduedd gobeithiaf, yn credu mai *cydymffurfiaeth*, ac nid *argyhoeddiad* ydyw prif gymhellydd y rhan fwyaf o wasanaeth ac aelodaeth eglwysig gwledydd cred. Sylwa, ddarllenydd, mai y *rhan fwyaf* wyf wedi ddywedyd, ac nid yr *oll*, fel na byddo i ti wneuthur cam â mi wrth siarad â'th gyfeillion yng nghylch y llythyr hwn yn ol llaw. Yr wyf yn cyfaddef fod *rhai*, dywedaf *llawer*, ond *ychydig* mewn cydmariaeth, y peth ydynt fel crefyddwyr oddiar *argyhoeddiad*, ac yn ganlynol yn eithriadau clodadwy i'r rheol uchod.

Er fod *cydymffurfiad* ac *argyhoeddiad* yn egwyddorion gwahanol iawn i'w gilydd yn eu gweithrediadau a'u heffeithiau, eto anaml y gwahaniaethir rhyngddynt yn y byd. Ond cael hwn a hwn yn aelod yn y capel neu'r eglwys,—un ychwanegol at y rhif, gan nad ym mha ddull,—pob peth yn *all right*. Yn araf a graddol y mae *argyhoeddiad* yn cymeryd lle trwy feddwl llawer, trwy chwilio, ymresymu a chydmaru llawer, nes y byddo dyn yn cael ei foddloni ei fod wedi cael gafael yn y gwirionedd. *Cydymffurfiaeth* yw yr egwyddor sy'n llywodraethu'r lluaws, a'i nodwedd ydyw byrbwylldra, anystyriaeth, rhagfarn, ac ymostyngiad meddwl gwasaidd. Bu amser pan oedd gair oddiar orsedd Lloegr yn alluog i droi'r wlad o Gatholiciaeth i Episcopaliaeth, ac o Episcopaliaeth i Bresbyteriaeth, ac yn ol drachefn gyda'r ystwythdra mwyaf, fel cwn yn dychwelyd at eu chwydfa,—pob un yn barod, pe byddai galw, i fyned i dd—l gyda'r brenin neu'r frenines. Dyma engraifft o gydymffurfiaeth ar *scale* helaeth. Y cyfnewidiad a wnaed ar y genedl oedd yn *allanol* yn unig; nid oedd yn arwyddocâu argyhoeddiad o gyfeiliornad eu cred flaenorol, nac o gywirdeb eu cred ganlynol,—nid oedd yn brawf o ddim ond o waseidd-dra meddwl y wlad, ac o uchafiaeth yr orsedd. Y mae yr *un* egwyddor eto, ond mewn agwedd yn wahanol, yn gweithredu cydymffurfiaeth yr un mor ddall yn rhesau amrywiol sectau crefyddol cred; a hi ydyw y gadwyn gadarnaf sydd yn cadw'r aelodau gyda'u gilydd mewn ymlyniad wrth eu pleidiau priodol; a thra dan ddylanwad yr egwyddor hon nid gwiw i ddynion ddadwrdd llawer yng nghylch eu ffydd—nid ydyw werth dim, na hwythau eu hunain fel proffeswyr yn un addurn i Gristnogrwydd y Testament Newydd.

Y mae llawer yn pigo i fyny eu credo am mai ynddi hi y bu eu tadau byw a marw, ac y mae henafiaeth wedi gosod argraph gysegredig arni dros byth yn eu golwg hwynt. Os awgrymir iddynt bod eu cred yn gyfeiliornus, dywedant, "Ai mwy wyt ti na'n tad Jacob?" Dynion yn cydymffurfio o barch i'w henafiaid yw y rhai hyn.

Mae llawer un drachefn yn glynu wrth grefydd y fam dirion a hoff, ac y mae yn gysegredig gan fil o adgofion. Bu fy mam anwylaf, tebygaf glywed rhywun yn dywedyd, yn aelod gwresog gyda'r Methodistiaid yn ——— am yspaid 50 mlynedd; ac O! mor hyfryd oedd ei chlywed yn adrodd ei chyffes, yn mynegu ei phrofiad a'i theimladau; a chyda'i hanadliad olaf dywedai, "Fy mhlentyn anwyl, yr ydwyf yn gadael i ti fy Nghyffes Ffydd yn etifeddiaeth, glŷn wrthi trwy bob trwch a thrin, a byddi yn sicr o'i theimlo yn dwr ac yn gymhorth mewn llawer o dywydd garw." Yng ngolwg personau o'r fath yma, gan hyny byddai yn anniolchgar, yn greulawn, ac yn annuwiol, i ammau cywirdeb credo a chrefydd y fam. Dyma gydymffurfiaeth oddiar hygaredd neu serch naturiol plant tuag at eu rhieni.

Mae llawer eto yn dal yn ddygn at eu *sect* neu eu *parti* eu hunain o herwydd bod eu perthynasau yn awr, a'r tylwyth erioed wedi bod, yn brwydro dan yr un llumanau; ac un o honynt hwy oedd y cyntaf i ddechreu'r achos da yn y man hyn a'r man arall. Un enwog oedd efe hefyd, ac y mae ei goffadwriaeth yn goreuro enwau gwaelion ei epil o genhedlaeth i genhedlaeth. Er mwyn pob peth, gan hyny, rhaid ymdrechu dros yr achos da; mae anrhydedd y tylwyth yn gysylltiedig ag ef; byddai troi cefn arno yn weithred frwnt ac yn warth parhaus. Dyma gydymffurfiaeth oddiar ysyryd plaid. Daeth i'm cof yn y man yma i mi ddarllen yn ddiweddar mewn hen rifyn o'r *Monthly Repository* rywbeth yn gyffelyb i'r ymadrodd canlynol, mewn un o gyfres o erthyglau ar "*High and Low Life in Italy.*" Y mae cyfieithiad o hono yn ymddangos i mi yn bwrpasol yn y cysylltiad presenol, oblegid y mae yn ddarluniad lled darawiadol o yspryd dall-bleidiaeth grefyddol. Ysgrifenai un Mr. Stivers at arall o'r enw Mr. Humfray fel hyn:—"Ond beth all'swn i ddysgwyl? Darfu i ti droi dy gynffon ar dy grefydd. Dal fi yn gwneuthur hyny, os gelli, ac yna dywed, '*rascal* o ddyn yw Jack Stivers.' Ganed di yn Bresbyteriad, 'roedd hyny yn ddrwg ddigon; ond nid yw dyn onest byth yn gadael ei eglwys, bydded hi beth bynag fyddo. Mae pob peth yn y byd yn well na *thuracoat* a gwrthgiliwr. Bydded i ddyn ddal at ei grefydd, bydded hi dda, ddrwg, neu ganolig. Bydded iddo ddal ati hyd y cerpyn diweddaf, hyd yn nod pe delai'r d—l ar y bwrdd a'i thaflu dros y *deck*. Ond os bydd dyn wedi cael digon ar ei grefydd, ac yn chwenych ei bwrw o'r neilldu, bydded iddo fod gymaint o wr boneddig a pheidio cymeryd un arall yn ei lle; yn gymhwys fel pe buasai yn gadael ei wraig ei hun, gofaled gadw yn rhydd oddiwrth wraig ei gymydog."

Mae eraill yn dwyn sêl dros eu heglwys oherwydd ei bod yn *respectable*, naill ai dros yr Eglwys Sefydledig, neu ryw ddosbarth o Ymneillduaeth mwy *ffasiwnu* sna'i gilydd. Mae gyda hwy gefnderwyr yn offeiriaid, neu yn bregethwyr, neu yn llygadu am fod. Mae'r gwyr mawr i gyd gyda nhwy, a mynant hwythau fod yng nghwmni'r gwyr mawr. Mae cannoedd o ddynion yn y byd yn foddlon ac yn barod i wneuthur pob peth braidd er mwyn gwên a *dydd da'wch* gwr bonheddig. Dyma gydymffurfiaeth er mwyn bod yn *ffasiwnus* ac yn *genteel.*

Mae llawer eto yn ymlynu wrth y ffydd yn yr hon yr addysgwyd hwynt.

Ni feiddiant chwilio i mewn i gyfundraethau eraill. Maent wedi cael eu dysgu, ac y maent yn credu, mai damniol yw pob dyn sydd yn amau; ac nid ydynt yn chwenych peryglu iachawdwriaeth eu heneidiau trwy betruso dim yng nghylch yr athrawiaethau a ddysgwyd iddynt gan eu hathrawon crefyddol. Cydymffurfiaeth oddiar *ofn* yw hyn.

Mae lluoedd drachefn yn aros yn y gred y ganwyd hwynt, fel y gellir dywedyd, oblegid y maent, oherwydd gwendid eu cyneddfau meddyliol, yn analluog i ganfod gwahaniaeth rhwng un opiniwn a'r llall. Ni fedrant, pe chwenychent, gydmaru, barnu, a phenderfynu drostynt eu hunain; o ganlyniad, nid oes ganddynt ddim i wneuthur ond derbyn, yn oddefgar a gostyngedig, geiriau awdurdodol eu hathrawon, dan lywodraeth y rhai y mae amgylchiadau wedi eu gosod hwynt. Dyma gydymffurfiaeth oddiar *anwybodaeth.*

Yn olaf, yn ddiau mae rhai, efallai bod llawer, yn perthyn i'r enwad hwn neu arall er mwyn *elw bydol.* Gwyddis bod y pleidiau crefyddol yn dangos llawer iawn o bartiaeth i'w haelodau eu hunain, ac oherwydd hyny, er mwyn bywioliaeth, tueddir rhai i aberthu cydwybod dda am mor lleied peth a *chwarter o dybacco,* neu *bound o sugyr.* Cydymffurfiaeth er mwyn elw bydol yw hyn.

Diamau bod yr egwyddorion uchod, sef henafiaeth, hygaredd, anwybodaeth, sectariaeth, ofn, elw bydol, a'r cyffelyb, yn nerthol weithio yn y byd crefyddol, ac yn fynych, o bosibl, yn helaethach eu dylanwadau na thystiolaeth y deall a chydwybod dda; a digon tebyg fod rhai dan yr enw Undodiaid i ryw raddau dan lywodraeth y cyfryw egwyddorion, ond y maent yn llai peryglus i'r Undodiaid nag unrhyw enwad arall. Ychydig a broffesant Undodiaeth cyn yn gyntaf cael eu hargyhoeddi yn drwyadl o'i gwirionedd. Gwell yn mhob ystyr ond *un* i ddynion beidio bod yn Undodiaid. Tra fyddo cynifer o bethau fel hyn yn bleidiol i athrawiaethau cyfeiliornus (yn ol fy marn i), ac i'r un graddau yn rhwystrol i'r gwirionedd, nis gellir dysgwyl i Undodiaeth gynnyddu yn gyflym iawn. Mae'n gorfod ymdrechu yn erbyn llifeiriant o wrthwynebiadau, yng ngeiriau Paul, "yn erbyn tywysogaethau, yn erbyn awdurdodau, yn erbyn bydol lywiawdwyr tywyllwch y byd hwn, yn erbyn drygau ysprydol yn y nefolion leoedd." A ofynir ond hyny, "Paham na bae Undodiaeth yn gwneuthur mwy o gynnydd?"

Ar yr un pryd, na fydded un Undodwr yn anobeithiol gyda golwg ar Undodiaeth. Y mae Undodiaeth *yn* cynnyddu, ond yn ol cyffelybiaeth tyfiant yr hedyn mwstard, a gweithrediad y lefain mewn blawd,—yn *raddol,* ond yn *sicr.* Gwir, nid yw Undodiaeth yn cael ei hynodi gan ryw ddiwygiadau disymwth; nid yw yn gwrygio yn amser y *cholera* a'r twymynon mwy na rhyw amser arall; ond, fel pob gwirionedd, y mae yn esmwyth a phwyllog ei cherddediad, ac yn ddiorthrech ei mynediad yn y blaen. Nid yw ei chynnydd mewn blwyddyn, nac mewn ugain mlynedd, ond bach iawn mewn cydmariaeth; ond gofyner pa gymaint o Undodiaid oedd yng Nghymru càn mlynedd i 'nawr, ac yna ceir gweled fod cynnydd wedi bod.

Heblaw hyn, onid yw "arwyddion yr amserau" yn tystiolaethu yn ffafriol i Undodiaeth? Mae yspryd rhydd ymofyniad yn creu aflonyddwch yng ngwersyll yr Eglwys; mae'r Drindod, pechod gwreiddiol, cyfiawnder cyfrifol, a'u gosgordd o gyfeiliornadau, mewn rhyw fanau, yn dechreu cael eu taflu i'r diarddel. Mae Calfiniaeth yr hen oesau, yn gyffredinol, yn cael ei threulio a'i malu ymaith yn raddol; a daw'r amser pryd y bydd yn cael ei rhifo ym mhlith y cyfeiliornadau a *fuont.* Yr oedd y *British Standard,* ychydig o

wythnosau yn ol, yn cyhuddo Esgob Llundain o ymylu ar undodiaeth, os nid wedi croesi'r ffin, wrth bregethu yn agoriad y gwasanaeth hwyrol yn St. Paul's. Meddai'r *Stamdard*, "Gallasai Rabbi Iuddewig neu weinidog Undodaidd draddodi braidd pob gair o bregeth Dr. Tait." Er weithiau yn teimlo yn egwan a digalon wrth edrych ar y rhwystrau mawrion sydd ar y ffordd, ac er gorfod dioddef diystyrwch, glafoerion, a llysnafedd meddyliau rhagfarnllyd dynion anwybodus, onid boddhaol i'r eithaf yw clywed Esgob y Brifddinas yn pregethu Undodiaeth dan groman St. Paul's? Mae Dr. Milman, Deon St. Paul's, hefyd, meddai'r *Standard*, wedi syrthio, ac yn afiach yn y ffydd. Ond paham y soniaf am y Saeson? onid ydyw Dr. Rowland Williams, *Vice Principal* Coleg Dewi Sant, Llanbedr, Ceredigion, yn cael ei gyhuddo o Sosiniaeth? ac onid yw Cymru o benbwygilydd yn diaspedain gan gyfarthiadau bugeilgwn Israel ar ei ol er ys llawer dydd? Ac yn wir, wedi darllen y "*Rational Godliness*," nis gallaf fel Undodwr lai nag arddelwi perthynas *o bell* â'r Doctor parchedig. Trueni ei fod yn myned o Lanbedr; ond pa le bynag yr elo, dymunaf iddo ran o bob daioni, a llwyddiant i *sobri* ei gydwladwyr oddiwrth effeithiau pendronaidd athrawiaethau cyfeiliornus.

Mr. Golygydd, mae fy llythyr wedi myned yn feithach nag yr oeddwn yn amcanu. Fy nyben wrth ei ysgrifenu oedd codi calon fy nghyd-Undodiaid, a'u hattal rhag llaesu dwylaw mewn anobaith. Cymerwch galon, frodyr, y mae Undodiaeth *yn* cynnyddu, ac *i* gynnyddu nes elo'r "bychan yn fil, a'r gwael yn genedl gref." Gobeithio bydd ail-gychwyniad yr *Ymofynydd*, a chydweithrediad pethau eraill, yn foddion effeithiol i helaethu terfynau yr achos da,—yr achos y bu Crist farw drosto,—ac i brysuro yr amser pryd y bydd holl feibion a merched Adda yn eydnabod "Un Duw a hwnnw'n Dad." Pawb a allo, derbynied yr *Ymofynydd*, ysgrifened iddo, a gwnaed ei oreu i ehangu ei gylchrediad hyd ddyffrynoedd a mynyddoedd gwlad ei enedigaeth. Y.

Ionawr 13, 1859.

DAMMEG Y GWR GOLUDOG.

"A bu i'r cardottyn farw, a'i ddwyn gan yr angylion i fynwes Abraham. A'r goludog hefyd a fu farw, ac a gladdwyd: ac yn uffern efe a gododd ei olwg, ac efe mewn poenau, ac a ganfu Abraham o hirbell, a Lazarus yn ei fynwes. Ac efe a lefodd, ac a ddywedodd, O dad Abraham, trugarha wrthyf, a danfon Lazarus i drochi pen ei fys mewn dwfr, ac i oeri fy nhafod: canys fe a'm poenir yn y fflam hon." Luc xvi. 22—24.

Y MAE ysgrifenwyr o bob *sect* yn cyduno mai dammeg yw hon, er fod rhai dynion yn tybied yn wahanol. Gallem ofyn i'r fath ddynion y gofyniadau canlynol:—A fydd i'r rhai sydd yn uffern weled i'r nefoedd? A ganiatteir iddynt gyfeillachu â'r gwynfydedig? A fydd Abraham neu ryw rai o breswylwyr y nefoedd yn ddarostyngedig i ymbiliau y damnedigion? A fydd trigolion y gwynfyd mewn sefyllfa i weled dioddefiadau a chlywed ocheneidiau'r colledig? A ddodir dynion da yn llythyrenol yn mynwes Abraham? Nid yw'r mwyaf anwybodus yn credu dim o'r fath beth. Dammegol yn ddi-

amen yw'r holl adroddiad. 'Nawr, mewn dammeg fe ddywedir un peth a meddylir peth arall. Math o ymadrodd ydyw yn yr hwn y mae'r gwirionedd yn guddiedig odditan y wisg allanol. Y mae esponwyr galluocaf pob enwad yn cyduno mai dammeg yw hon; ac nid ydym i ddeall dammeg yn llythyrenol.

Yr ydym o'r farn fod y canlynol yn wir ddeongliad:—

Yr oedd y gwr goludog yn arwyddoccau y genedl Iuddewig, neu feallai yr offeiriadaeth Iuddewig—gwasanaeth crefyddol y rhai oedd yn hynod iawn am eu gwisgoedd porphor a'u lliain main. Wrth y cardottyn Lazarus y golygir y cenhedloedd, y rhai oedd yn dlawd yn ngolwg yr Iuddewon; yr oeddynt yn cael eu dirmygu, a dywedid am danynt eu bod yn trigo mewn tlodi ac afiechyd ysprydol. Nid oedd ganddynt un ffordd i gael gwybodaeth am y gwir Dduw ond trwy eistedd wrth byrth yr Iuddewon, a bwyta o'r briwsion a syrthiai oddiar eu bwrdd ysprydol—ysgrifeniadau Moses a'r prophwydi, yr unig ysgrifeniadau dwyfol ag oedd yn y byd yr amser hyny.

Ond y mae cyfnewidiad! cyfnewidiad! i ddyfod dros y gwr cyfoethog, yr Iuddewon; a'r cardottyn, y cenhedloedd. Y mae'r Iesu wedi dyfod â theyrnas newydd—goruchwyliaeth newydd. Yr oedd yr Iesu yn rhagweled cwymp yr Iuddewon; yr oedd yn gwybod am eu balchder; gwyddai y buasent yn ei wrthod ef, yr hwn oedd y "bara bywiol a ddaeth i waered o'r nef;" ac y mae yn dywedyd wrthynt ei bod yn bosibl i Dduw o'r meini hyn (y cenhedloedd) gyfodi plant i Abraham. Bu farw'r cardottyn (y cenhedloedd) i'w gyflwr blaenorol, a dygwyd ef gan yr angylion, cenhadon Duw, i fynwes Abraham, h. y. i ffydd Abraham.

Bu farw'r gwr goludog,—aeth gogoniant blaenorol yr Iuddewon heibio, cawsant eu halltudio yn grwydriaid ar hyd wyneb y ddaear. Cafodd y ddammeg hon ei llefaru cyn i'r pethau hyn gymeryd lle; mor rhyfeddol y mae wedi ei chyflawni! Dywedodd Iesu Grist wrth yr Iuddewon, "Na feddyliwch ddywedyd ynoch eich hunain, Y mae genym ni Abraham yn dad i ni: canys yr wyf yn dywedyd i chwi, y dichon Duw, ïe, o'r meini hyn (y cenhedloedd) gyfodi plant i Abraham." Pan ddaeth y genedl-ddynes (y wraig o Ganaan) at yr Iesu i ymofyn cynnorthwy, dywedodd wrthi, "Nid da cymeryd bara'r plant, a'i fwrw i'r cwn." Hithau a ddywedodd, "Gwir yw, Arglwydd, canys y mae'r cwn yn bwytta o'r briwsion sy'n syrthio oddiar fwrdd eu harglwyddi." Mor debyg yw'r iaith yma i'r hyn sydd yn y ddammeg. Y mae gweinidogion Cristnogol ag sydd yn dal golygiadau gwahanol iawn i ni, ynghylch cyflwr dyfodol y meirw, yn cymeryd yr un olwg ar y ddammeg hon. Y mae yr esponiad rhagorol a ganlyn yn cael ei roddi gan y Parch. James Bates, offeiriad yn Eglwys Loegr:—

Ni a dybiwn, ynte, mai y "*gwr goludog, yr hwn oedd yn cymeryd byd da yn helaethwych beunydd,*" yw'r Iuddew; yr hwn sydd wedi ei gyfoethogi mor gyflawn â'r dadguddiad dwyfol; ac mai'r cenedl-ddyn oedd y cardottyn tlawd a fwrid yn y fath sefyllfa druenus wrth ei borth ef, yr hwn oedd yn awr yn y cyflwr iselaf a gwaelaf gyda golwg ar wybodaeth grefyddol. *Y briwsion a syrthiasai oddiar fwrdd y gwr cyfoethog*, â'r rhai yr oedd y cardottyn mor awyddus am gael ei borthi, oedd y darnau hyny o draddodiadau y patriarch a'r Iuddewon a allai eu philosophyddion ymdeithyddol gasglu gyda'r gofal a'r diwydrwydd mwyaf. Y philosophyddion hyny hefyd oedd y *cwn a ddaethant ac a lyfasant gornwydydd* paganiaeth, ac a ymdrechasant ddiwallu yr angen oedd o ddatguddiad dwyfol trwy'r fath gynlluniadau

a thybiadau ynghylch natur y duwiau, a rhwymedigaeth dyledswyddau moesol ag oedd yn anrhydedd (a rhoddi iawn gyfrif am eu hanwybodaeth a'u gwendidau) nid bychan i'r natur ddynol; ac etto, dangosasant yn eglur trwy hyn mor lleied y gallai rheswm fyned heb rhyw gynnorthwy goruwchnaturiol, fel mae un o'r doethaf o honynt wedi cyffesu. Oddeutu'r amser hyn y *mae'r cardottyn yn marw, ac yn cael ei ddwyn gan yr angylion* (h. y. cenhadon ysbrydol Duw at ddynolryw) *i fynwes Abraham;* hyny yw, y mae wedi cael ei impio *(engrafted)* yn eglwys Dduw. *Y mae'r gwr goludog hefyd yn marw, ac yn cael ei gladdu.* Y mae yn marw yr hyn ydym yn alw yn farwolaeth boliticaidd. Y mae ei oruchwyliaeth yn terfynu. Y mae yn cael ei wrthod i fod bellach yn briodol Fab Duw. Y mae'r bobl y mae efe yn osod allan yn y ddammeg yn cael eu dystrywio mewn modd truenus, ac y mae eu gweddillion yn cael eu gyru i alltudiaeth ar hyd wyneb y ddaear, yn grwydriaid, wedi eu nodi, fel Cain eu cynddelw *(prototype)*, am drosedd cyffelyb; a dichon mai'r nod hyn yw eu hymlyniad wrth y gyfraith. Trwy yr hyn y digwyddodd, mewn modd rhyfedd, fod y bobl hyn, er eu bod yn wasgaredig, etto yn preswylio ar wahan ac wrthynt eu hunain, yn cael eu cyfrif yn mhlith y cenhedloedd fel y rhagddywedodd Baalam. Y mae'r gwr goludog, wedi cael o hono ei dynu i lawr i'r sefyllfa isel yma, yn achwyn yn dost ar ei dynged chwerw. Ond y mae Abraham yn dywedyd wrtho ei fod wedi gwrthod ei gyfleusdra, tra y mae Lazarus wedi ymaflyd yn yr eiddo ef, ac yn awr y mae yn derbyn y cysur oddiwrtho. Y mae yr Iuddew yn galaru eisiau rhagor o brofion er argyhoeddi ei gydwladwyr, ei bum' brawd,; a dymunai ddanfon o Abraham Lazarus oddiwrth y meirw, fel yr argyhoeddid hwynt. Ond y mae Abraham yn dywedyd wrtho, *Os na all eu Ysgrythyrau eu hunain eu hargyhoeddi, ni chredent chwaith pe codai un oddiwrth y meirw.* Ac felly yn gymmwys y digwyddodd: oblegid traddodwyd y ddammeg hon oddeutu diwedd y drydedd flwyddyn o weinidogaeth ein Harglwydd; ac yn yn y bedwaredd, neu'r flwyddyn ganlynol, y mae y geiriau y draddodwyd yn ngenau Abraham, fel diwedd i'r ddammeg, yn cael eu gwireddu yn llythyrenol trwy adgyfodiad ein Harglwydd, Lazarus arall, oddiwrth y meirw. A gallwn dybied na roddwyd yr enw ffugiol yma i'r cardottyn yn y ddammeg heb ryw bwrpas, gan fod cais tybiedig y gwr goludog wedi cael ei atteb yn gyflawn, trwy adgyfodi o'n Harglwydd un arall, a Lazarus mewn gwirionedd, oddiwrth y meirw. A pheth oedd y canlyniad? A argyhoeddodd y wyrth *nodedig* yma frodyr y gwr goludog? Na ddo, yn wir. Yr oedd ei ymweliad â hwynt oddiwrth y meirw mor bell o'u hargyhoeddi, fel y bu iddynt yn ddiau i ymgynghori "*fel y lladdent Lazarus; oblegyd llawer o'r Iuddewon a aethant ymaith o'i herwydd ef, ac a gredasant yn yr Iesu.*"

—*O'r 'Christian Freeman.'*

Cyf. SIENCYN.

[Teimlwn yn ddiolchgar i *Siencyn* am ei gyfieithiad. Mae'r esponiad a rodda ar y Ddammeg, ond odid, yn newydd i lawer o'n darllenwyr. Pa fodd bynag cynhwysa rai golygiadau ag sy'n ymddangos yn deilwng o ystyriaeth. "Geiriau y bywyd" yw yr oll o eiriau Crist, ac y mae eu iawn ddeall o'r pwys mwyaf. Dichon y bydd rhai o'n Gohebwyr i gynnyg sylwadau ychwanegol ar y pwnc. Bydd hyny yn taro yn bur dda at amcan ein Cyhoeddiad. A da iawn hefyd i ni fod yn barod i dderbyn pob addysg oddiwrth ein brodyr yn Lloegr.—GOL.]

DEALLTWRIAETH O GYFREITHIAU NATTUR YN ANHEPGOROL I WNEUD DYN YN WIR DDEDWYDD YN Y BYWYD HWN.

SYR,—Gan fy mod yn cymmeryd yn ganiataol fod darllenwyr yr *Ymofynydd*, un ac oll, yn credu yn ddifrifol, ac yn cydnabod yn barchus, fodoldeb Awdwr Nattur, neu Ddechreuol Achos pob peth, sef, Bod Hollalluog, Holl-ddoeth, a Hollwybodol, a hwnnw yn Dduw a Thad cariadlawn, wedi creu pob peth yn y ffordd oreu possibl; ac wedi, ac yn, ac a fydd hyd dragywyddoldeb yn trefnu a rheoleiddio pawb a phob peth yn berffaith gydweddol á gwir les a dedwyddwch yr oll o'i anhraethol greadigaeth, meddyliaf nad anmhriodol fyddai sylwi ar rai o weithredoedd ein Dwyfol Dad. Canys, pe gallwn egluro yn ddealladwy a boddhaol i feddwl y darllenydd gymaint ag *un* o weithredoedd ein Duw doeth a da, a bod y cyfryw weithred yn berffaith gydunol á'r priodoliaethau sanctaidd o Gariad anfeidrol a Doethineb digamsyniol, gwaith hawdd iawn gwedyn fyddai dangos yr angenrheidrwydd anhebgorol i Ddyn i ddeall cyfreithiau ei Dad Doeth, er mwyn bod yn wir ddedwydd o dan ei lywodraeth gariadlawn; oblegyd, pa gysur i greadur rhesymmol sydd o unrhyw gyfundrefn heb iddo allu ei deall.

Er yr aneirif ryfeddodau mawrion hawdd i'w canfod o amgylch ogylch ini bob mynyd awr o'n bywyd; er ein bod bob eiliad amrant yn cario yn ein cyrff nodau amlwg o ddoethineb anfeidrol, ac amcan berffaith gariadlawn y Duw mawr a'n creodd; etto i gyd, gan fy mod yn deimladwy o fy anwybodaeth o Ddifyniaeth *(Anatomy)*, Fferylliaeth, yng nghyd a gwahanol gyfreithiau nattur, teimlaf ddigalondid mawr i ymaflyd á'r testyn, gan fy mod yn ystyried mai allwedd neu agoriad celloedd y rhesymau ardderchog hyny ydynt yn safon ein cyfundraeth; fod yn rhaid i ddyn ddeall cyfreithiau nattur i fod yn wir ddedwydd yn y byd hwn, ydyw fod dyn yn gweled yn eglur ac amlwg y Doethineb, Gallu, ac amcan anfeidrol ddaionus, ydynt i lygad a deall y pwyllog, ymchwilgar, i'w canfod yn anwadadwy yng ngweithredoedd y greadigaeth. Beth bynag, gan mai ammherffaith fyddai y goraf a'r doethaf o ddynion yn eu bysgrifeniadau, yn ol y golygiadau a'r profion a ymddangosent iddynt hwy ar yr amser hwnw yn iawn, nid gwaeth i minau roddi yma fy ngolygiadau inau ar bwnge a ystyriwyf fi o'r pwysigrwydd mwyaf i ddynolryw fod yn ei wybod, ïe, yn gymaint ag y goddefir yn hawddgar gan bawb i blentyn bach i ganmol ei rieni, gan ddywedyd fod ei dad a'i fam y cryfaf, y glanaf, a'r doethaf o bawb dynion, gobeithiaf y caniateir i finau draethu goreu ag y gallaf fy meddwl mabaidd am fy NHAD GOREU inau, sef DUW a THAD y greadigaeth oll.

Cawn yn y Dwyfol Wirionedd mai CARIAD yw Duw, a cheisiaf ddangos mor eglur ag y medraf fod hyn yn cael ei wirio yng ngwaith ei law. Pa le y mae mwy o nodau amlwg o gariad nag yng nghylchdroadau yr aneirif fydoedd wybrenol, yn nghyd a'r ddaear hon, o amgylch yr haul, fel y mae yn dwyn yn eu cylch yn ddiwyrni Wanwyn, Haf, Hydref, a Gauaf bob blwyddyn, er diwallu dyn ac anifail o bob angenrheidiau bywyd? Nid oes ond anfeidrol Gariad a allasai arddangos y fath amcan a gofal tadol ag ydyw tymhorau y flwyddyn i bob llygad meddwl pwyllog ac ymchwilgar; ac y mae y cristion ystyriol yn canu o'i galon gyda'r anfarwol fardd—

> "Mae'r oerfel, y gwlyb-hin, a'r gwres,
> Tir gwastad ac uwchder y bryn,
> Yn gweini prydferthwch a lles,
> Molianner ein Crewr am hyn;
> Mae dolydd, y mynydd, a'r môr,
> Hyd eithaf doethineb yn hardd;
> O drefnau doethineb ein Ior
> Dedwyddwch o'r puraf a dardd,"

Am nad wyf fi yn *Anatomist* yr wyf yn ei ystyried yn haerllugrwydd o'r mwyaf ynof i beidio cydnabod yr awdurdodau ar ba rai y seiliaf fy ngolygiadau, gan hyny dymunaf sylwi fod yr ychydig brofion a nodir o ddoethineb ac amcan daionus a chariadlawn ein Crewr ydynt i'w canfod yng nghyfansoddiadau dyn ac anifail, gan mwyaf yn sylfaenedig ar awduron Seisnig.

Dywed un gwr enwog fod chwilio a myfyrio ar ffurfiad y ILLYGAD yn feddyginiaeth

rhag *Diddduwiaeth* (*Atheism*); ac er dangos geirwiredd y sylw hwn, gwneir ychydig sylwadau ar yr unrhyw yn y fan hon; ac er nad ydym yn hyddysg mewn *Optics*, a chyfreithiau llewyrchiad ac adlewyrchiad goleuni, &c., etto i gyd y mae digon o gywreinrwydd celfyddydol yn amlwg yn ffurfiad y llygad i'w ganfod i bob dyn ymofyngar am wybodaeth. Mae sefyllfa ddiogel y llygad, ac hefyd ei wasanaeth ammhrisiadwy yn amlwg i'r gwanaf ei ddeall. Y mae y rhan fwyaf o ddynolryw yn deall fod y clawr neu'r amrant wedi ei roi i'w ddiogelu rhag niwed, megis lluwch, &c., ond ychydig ydynt yn gwybod fod swydd arall i'r amrant, sef yw hyny ireiddio y llygad âg olew pan y byddo surni yr awyr yn ei sychu yn ormodol; pan y buasai dyn yn chwysu, llanwesid y llygaid â'r chwys nes dallu dyn, ac felly ei analluogi i gyflawni ei orchwylion angenrheidiol oni buasai blew yr aeliau a'r amrantau. Beth, yn awr ynte, sydd egluraeh o ddaioni a chariad Tadol na hyna; ac y mae'r poen a gawn pan elo rhywbeth o'i gwrs naturiol yn y llygad trwy unrhyw achos yr un faint o nodau ei gariad ag ydyw y mwyniant a fwynhawn; canys oni b'ai y poen arteithiol hyny a deimlwn pan gyffyrdda rhywbeth niweidiol â'r llygad, ni fuasai dyn yn alluog i gadw ei olygon dros fawr o amser: mae poen y llygad mor llym ac arteithiol nes ydyw yn ddiarebol am yr hyn nas gallwn ei ddioddef—"Mae mor dost a byw'm llygad"—"Yr un man genyf gyffwrdd â byw'm llygad a'i gwrdd yntau," ydynt ddywediadau mor gynefin, fel mai afreidiol ydyw sylwi arnynt yn mhellach na eu bod yn profi y gosoddiad. Pa mwyaf pwysig a defayddiol y byddo y peiriant, mwyaf i gyd yw y poen pan y gwneir cam ag ef, er mwyn cadw ei gyfansoddiad cywrain a destlus yn ddianaf a diwyrni; felly gyda'r llygad, y mae mor anhepgorol angenrheidiol o fod llenni a hylifau y llygad yn berffaith gywir, ac y mae ei wasanaeth hefyd o gymmaint pwys i ni tuag at ein dedwyddwch, nes ein cospir â chosp mor drom ac annioddefol pan droseddir cyfreithiau amddiffynol y golygon, nes peri i ni gyda phob brys i ymdrechu symmud ymaith yr achos o'r poen. Beth ynte ond gofal Tadol Gariad a fuasai yn trefnu y cyfryw ddiogelwch?

Pe na buasai y poen arteithiol a gawn wrth droseddu cyfreithiau amddiffynol ein cyfansoddiad, ni allasem mewn un modd fyw fawr o amser. Mae pob meddwl ymofyngar a diduedd yn canfod yr un dyben cariadlawn yn ysiad neu losgiad y tân ag sydd yn y pleser a'r blys mwynhaol hynny a gawn wrth gymmeryd lluniaeth naturiol—a'r dyben hwnnw ydyw cadw einioes, a hynny yn y cyfryw fodd ag iddi fod yn gysur a mwyniant i'w pherchenog. *Poen* cnofâol a gerwinol yr oerfel a'r rhew sy'n peri inni ymwisgo yn glyd. *Poen* ysol y tân sy'n peri inni ymgadw rhag cyffyrddiad ammhriodol âg ef. *Poen* sychedsy'n peri inni yfed diod. *Poen* newyn sy'n peri inni gymmeryd ymborth. *Poen* sy'n peri inni beidio bwyta ac yfed i ormodedd. *Poen* lludded sydd yn peri inni fyned i'n gwelyau'r nos i gysgu er bwrw ymaith ein lludded ac adnewyddu ein nerth; mewn gair, ni fyddem yn gwybod yn y byd pryd i fwyta, yfed, gwisgo, na gorphwys, oni ba'i y *poen* sy'n gydfynedol â'r *angen* o gyflawni angenrheidiau ein nattur.

Wel 'nawr, beth sydd amlyccach na mai CARIAD TADOL yw gwir ac unig Achos y trefniadau doeth a daiouus hyn? Er fy mod (fel y sylwais yn barod) yn amddifad iawn *iawn* o fod yn hyddysg mewn DIFYNIAETH (*Anatomy*), &c., yr wyf yn credu fy mod wedi dangos yn amlwg (os yn anghelfydd) "*Fod yn anhepgorol angenrheidiol i Ddyn i ddeall cyfreithiau ei* DAD NEFOL *tuag at fod yn wir ddedwydd yn y byd hwn.*"

Terfynaf gyda thaer ddeisyfiad ar rai o'ch darllenwyr talentog sydd dan fanteision gwybodaeth i ddyfod allan ar y pwnc hwn, ag wyf fi yn fy cofndra ond megis agor y drws i alw eu sylw hwynt atto.

CYNONWYSON.

Aberdâr.

Nid oes neb dynion yn ofni Duw cymaint a'r rhai hyny sydd yn cymeryd arnynt nad ydynt yn credu ei fod. Y mae'r dynion hyn uwchlaw pawb craill yn fwy agored i ddychryn a chryndod, yn enwedig yn amser afiechyd, a phan byddo amser marwolaeth yn neshau.—CICERO.

Gohebiaethau.

IAWN DDARLLENIAD

1 Tim. iii., 16.

ATEB i sylwadau y Parch. Rhys Gwesyn Jones *ar fy Mhregeth yn Pen-y-bont-ar-Ogwr, Hydref* 1*af*, 1857: Rhan 2.—*O'r Annibynwr,' Ebrill*, 1858.

Mr. Gol.,—Sylwais yn barod fod y llawysgrifau *henaf* yn darllen *'ὸς yr hwn*, neu *'ὸ yr hyn;* fod Griesbach yn benderfynol fod Θεος, *Duw*, yn ymddibynu ar rifedi tystion a thadau *diweddarach* Groeg; wedi hyn dymunais ar Mr. Jones nodi rhyw lawysgrif cyn yr wythfed neu'r nawfed canrif, yn cynwys Θεος, *Duw;* âf gam yn mhellach yn awr, a dywedaf, nad oes ond *naw* llawysgrif i gyd mewn *uncial letters* yn nghofres Griesbach o lythyrau Paul, sef A B C D E F G H I. Y mae *pedair* o'r rhai hyn, sef A C F G, yn darllen *'ὸς yr hwn; un*, sef D, yn darllen *'ὸ yr hyn.* Ysgrif Clarmont yw hon, ac nid y Codex Bezœ yn Nghaergrawnt, fel y dywedais yn fy llythyr cyntaf. *Tair* a bwlch ynddynt yma, sef B E H. Felly, nid oes ond un, sef I, a *all* fod dros Θεος, *Duw.* Nid yw y llawysgrif hon yn cael ei chymeradwyo gan Wetstein, ac nid yw Dr. J. Pye Smith yn gwneuthur cymaint a'i henwi yn ei gyfres ef o brif lawysgrifau y Testament Newydd. (Gwel *Appendix No.* V. *to his Scripture Testimony.*) Y darlleniad y mae y gwr enwog hwn yn gymeradwyo yw *'ὸς yr hwn*, neu *'ὸ yr hyn.* Ond at y llawysgrif. Dywed Griesbach fod bwlch yn B E H, *a rhai eraill,—aliique nonnulli;* gan hyny, *gall* fod bwlch yn hon. Yn olaf, dywed Marsh nad yw y darlleniad hwn (Θεος) i'w gael, o'r llaw gyntaf mewn un *llawysgrif hen* mewn *uncial letters*, nac mewn *un cyfieithiad hen*, oddieithr yr Arabic, yr hwn nid yw o fawr awdurdod. (Gwel Marsh's *Michaelis Vol.* II., *p.* 868.) Os gwir hyn, nid oes gan Mr. Jones ddim cymaint ag un llawysgrif hen. B'le mae'r *cant a haner llawysgrifau* henaf yn awr? Ai gormod fy nghais, yn fy ysgrif gyntaf, i Mr. Jones addef ei fai mor gyhoeddus ag y gwnaeth ef?

Y mae genyf un sylw i'w wneyd ar yr hyn a ddywed Mr. Jones am yr enw perthynasol (*relative pronoun*). "Ond nis gallaf weled yr emillai Mr. Evans ddim wrth gael y *rhagenw* yn ei le, oblegid rhaid iddo addef fod y *rhagenw* yn cyfeirio *bob amser* at enw fyddo yn ddigon hysbys i'r darllenydd." Mewn atebiad dywedaf nas gwn pa un o'r *relatives* y mae yn ei feddwl, *'ὸς yr hwn*, neu *'ὸ yr hyn.* Yn nesaf, ni raid i mi addef y fath beth ag y mae Mr. Jones yn haeru. Y mae y rhagenw perthynasol (*relative pronoun*), yn cyfeirio *fynychaf* at enw adnabyddus o'i flaen, ond nid *bob amser* fel y dywed Mr. Jones, onide dyweded ef beth yw'r *antecedent* i'r *relative* yn yr adnodau canlynol:—Marc iii. 29: "Eithr yr hwn, *'ὸς*, a gablo," &c.; adn. 35: "Canys pwy bynag, *'ὸς*, a wnelo ewyllys Duw," &c.; iv. 25: "Canys yr hwn, *'ὸς*, y mae ganddo." Luc vii. 47: "Ond y neb, *ὡ*, y maddeuer ychydig iddo." Yr un dull a gawn mewn amrywiol o fanau eraill yn y Testament Newydd. Yr un modd y cawn *'ὸ* hefyd yn sefyll heb un *antecedent* iddo yn fynych. Felly y mae Mr. J. yn dra esgeulus yn nghylch ei haeriadau. Dylasai wybod fod *ὸς* a *ὸ* yn cael eu harfer yn lle *hostis* a *hoti*, *he that*, *whoever*, *whatever*, efe yr hwn, y neb, pwy bynag, beth bynag.

Ni ddywedais, fel y tybia Mr. Jones, y gallasai y llinell fod yn nghanol yr O pan ddaeth o dan law Paul; eithr dywedais fy mod yn cymeryd y darlleniad cyffredin yn ganiatäol, er mwyn dangos nad yw yr adnod fel ag y mae yn sefyll yn y Bibl Cymraeg, ddim yn anghyson â'n daliadau ni fel Undodiaid. Yn awr, at ei grynodeb ef o'm pregeth. Gall fod, fel y dywed ef, yn grynodeb o'r sylwadau ar y testyn, *fel y cymerwyd hwynt i lawr ar y pryd*; ond nid fel eu traddodwyd o lawer o ffordd. Dywedais fod Duw yn *ymddangos* yn ei holl weithredoedd, sef ei ddoethineb a'i allu;—ei fod wedi amlygu ei hun trwy ei weision y prophwydi;—ond ei fod wedi llefaru yn fwy eglur a chyflawn yn ei Fab;—fod doethineb Duw yn ymddangos yn nysgeidiaeth yr Iesu am daddoldeb a chariad *cyffredinol* Duw tuag at holl deulu dyn, yr *Iuddew* a'r *Groegwr* hefyd;—am ei faddeugarwch rhad, a'i dderbyniad croesawus o'r afradlon ar ei edifeirwch a'i ddychweliad;—am ei ofal tadol a pharhaus am ei blant, a'i lywodraeth ddiysgog drosdynt;—am ei farwolaeth a'i adgyfodiad ei hun fel sail ein gobaith am fywyd ar ol angeu;—am y farn olaf, a sail ein cymeradwyaeth gyda'r barnwr. Dywedais mai oddiwrth Dduw y daeth y newyddion da yma; o herwydd fod Crist yn dywedyd, "Fy nysgeidiaeth, nid yr eiddof fi yw, eithr eiddo yr hwn a'm hanfonodd i," Ioan vii. 16; a thrachefn, "Canys myfi ni lefarais o honof fy hun: ond y Tad yr hwn a'm hanfonodd i, efe a roddes *orchymyn* i mi beth a ddywedwn, a pha beth a lefarwn. Am hyny, y pethau yr wyf fi yn eu llefaru, *fel y dywedodd y Tad wrthyf*, felly yr wyf yn llefaru," Ioan xii. 49, 50. Gwel yn mhellach, Ioan xiv. 10, 24, 31. Dywedais hefyd fod *gallu Duw*, ac *nid*

ei allu ei *hun*, yn ymddangos yn ngweithredoedd yr Iesu, o herwydd iddo ddywedyd na allasai wneuthur dim o hono ei hun; mai yn ol gorchymyn y Tad, yn enw y Tad yr oedd yn gwneuthur y gweithredoedd; ac mai y Tad, yr hwn oedd yn aros ynddo, oedd yn gwneuthur y gweithredoedd. "Ni allaf fi wneuthur *dim o honof fy hunan*, fel yr wyf yn clywed yr wyf yn barnu. Pan ddyrchafoch chwi Fab y dyn, yna y cewch wybod mai myfi yw efe, ac nad wyf yn gwneuthur *dim o honof fy hun;* ond megys y dysgodd fy Nhad fi yr wyf yn llefaru y pethau hyn. —Ond fel y gwypo y byd fy mod i yn caru y Tad, ac megys y *gorchymynodd y Tad* i mi, felly yr wyf yn gwneuthur.—Y gweithredoedd yr wyf fi yn eu gwneuthur yn *enw* fy Nhad, y mae y rhai hyn ya tystiolaethu am danaf fi.—Y geiriau yr wyf fi yn eu llefaru wrthych, nid *o honof fy hun* yr wyf yn eu llefaru; ond y *Tad* yr hwn sydd yn aros ynof, *efe sydd yn gwneuthur y gweithredoedd.*" Ioan v. 30; viii. 28; x. 25; xiv. 10. Ac y mae yr Iesu yn galw y cyfryw weithredoedd yn weithredoedd ei Dad. "Onid wyf fi yn gwneuthur gweithredoedd fy Nhad, na chredwch i mi." Ioan x. 37. Ar bwys hyn, gofynais yn ddifrifol, paham na fuasai yr Iesu yn priodoli ei ddysgeidiaeth a'i weithredoedd i'w ddiwdod ei hun, ac nid i'w Dad, os oedd yn Dduw? Wele well crynodeb na roddodd Mr. Jones; ond cofied y darllenydd mai *crynodeb* yw ef, a'i fod yn gofyn eglurhad i rai annghyfarwydd â syniadau yr Undodiaid.

Dywed Mr. Jones: "Nis gallaf weled pa fodd y dichon Mr. Evans ddal fod Duw yn preswylio yn y greadigaeth ac osgoi casgliad Spinoge, [ai nid Spinoza ddarfu Mr. Jones ysgrifenu?] fod y greadigaeth a Duw yn un." Y mae Mr. Jones yma yn tadogi plentyn arnaf, ac yna yn crio allan mai plentyn hagr ydyw, heb wybod pa un a wnawn ei arddel ai peidio. Digon fyddai i mi ddywedyd mewn atebiad, mai nid y gair preswylio a arferais yn fy mhregeth, a bydded Mr. Jones ei hun yn dyst; dywed ef yn ei grynodeb mai y gair ymddangos a arferais i. Ond a chaniatau i mi arfer y gair preswylio, nid wyf yn gweled ei gasgliad ef yn deg. Y mae Mr. Jones yn preswylio yn Mhenybont; ond cithafoedd byrbwylldra fyddai casglu o herwydd hyny ei fod ef a Phenybont yn un: na, na, nid tref yw Mr. Jones, er ei fod yn preswylio ynddi; ac nid pregethwr yw y dref, serch fod pregethwr yn preswylio yno. Gan hyny, cymered Mr. Jones ei blentyn yn ol, er ei fod ychydig yn harddach nag y tybiodd ef ar y pryd ei fod, a chyflwyned ef i Spinoza, neu y sawl a fyno, gan nad oes a fynwyf fi ag ef. Gall Mr. Jones, os ewyllysia, gael rhagor, o anhawsderau yn erbyn hollbresenoldeb Duw a'i briodoliaethau eraill yn ngweithredoedd hen a diweddar yr anffyddwyr; ond nis gallaf fi yn fy myw lai na chredu fod Duw yn hollbresenol, hollwybodol, &c. Y mae Mr. Jones yn addef eithaf digon i mi pan yn dywedyd, "Addefaf, ïe, credaf fod amlygiadau o allu a doethineb Duw yn yr oll o'i weithredoedd." Wrth Dduw yr wyf fi yn deall, a diau yntau hefyd, *Bod anfeidrol*, a phob priodoledd a fedd ef hefyd yn *anfeidrol;* felly gan fod amlygiadau o allu *Duw* yn y greadigaeth, y mae yma amlygiadau o allu a doethineb *anfeidrol*, ac nis gallaf fi, er dim, weled gwahaniaeth rhwng hollalluawgrwydd, hollwybodaeth, a gallu a gwybodaeth anfeidrol.

Mewn perthynas i sylw Mr. Jones, pan y dywed, "Er engraifft, y mae pob peth a wnaeth Duw yn profi ei fod yn alluog a doeth; ond nid yw yr un, ïe, nid yw yr oll o'i weithredoedd yn profi ei fod yn hollalluog na holddoeth." Felly, yn ol Mr. Jones, nid oes yr un prawf o fodoliaeth Duw oll yn ei weithredoedd. Pa fodd y cydsaif hyn â'i addefiad blaenorol nis gwn; eithr hyn a wn, nas gallaf wneuthur yn well na gadael ei haeriad ar bwys geiriau Apostol y cenedloedd, fel y gallo y darllenydd farnu ynghylch ei gywirdeb. "Canys ei anweledig bethau ef," medd Paul, "er creadigaeth y byd, wrth eu hystyried *yn y pethau a wnaed*, a welir yn *amlwg*, sef ei *dragywyddol allu ef a'i dduwdod.*" Rhuf. i. 20. Faint o wahaniaeth a all fod rhwng *tragywyddol* allu a *duwdod* y Jehofa mawr a'i *hollalluawgrwydd*, nis gwn i: i'm tyb anmherffaith i, y mae ei dduwdod ef yn cynwys yr oll a berthyn iddo, ac y mae yr apostol yn dywedyd fod hwn i'w weled yn *amlwg* yn y *pethau a wnaed.* Yn fyr, y mae y gwybedyn lleiaf yn profi i mi yn eglur, er lleied yw, fod y gallu a'i creodd yn anfeidrol uwch nag un gallu crëedig a meidrol, ac y mae y casgliad yn ymddangos i mi yn naturiol, sef, y gall Crewr y gwybedyn wneuthur y peth a fyno,—wneuthur pob peth unol â'i briodoleddau moesol a naturiol. Gwn nas gall Duw wneuthur annghyfiawnder a phechod; nas gall ddifodi ei hun; nas gall wneuthur un bod anfeidrol arall: er hyny y mae yn hollalluog. Y mae gwahaniaeth mawr rhwng dywedyd fod natur yn profi fod Duw yn hollalluog, a bod dyn yn gallu gweled yr oll o'i allu. Gwn hefyd, er mor eglur amlygiadau y Duwdod yn ei waith, fod dyn wedi eu cam-esponio yn druenus, wedi methu deall eu llais, wedi cyfeiliorni; ac i Dduw, yn anfeidroldeb ei gariad, *lefaru* wrthym ni yn ei Fab. Yr oedd angen am ddatguddiad; a diolch i'w gariad anrhaethadwy am dano.

Dywed Mr. Jones fod Paul yn gydradd, os nid yn rhagori ar Grist yn ei ddysgeid-

iaeth am dadoldeb Duw. Nid felly fy marn i am Iesu. I mi "*Ni lefarodd dyn erioed fel y dyn hwn.*" Hawdd genyf addef fod Crist a Phaul ar yr un gorchwyl mawr; ond Crist sydd yn rhagori ar lawer golwg. Efe yw'r *Athraw;* efe, yr *Arglwydd;* eithr rhagor ar hyn eto yn fuan. Dywed Mr. Jones, "Os mai marw er cadarnhau ei athrawiaeth hynododd Grist, gwaeth Paul hefyd yr un peth; felly yr oedd Duw yn preswylio yn Paul ac eraill yr un fath a Christ." Y mae hon yn elfen hollol ddyeithr i'r pwnc. Y pwnc yw hwn, a ydyw yr adnod dan sylw yn profi duwdod Crist ai nid yw; ac y mae y cyfan a ddywedodd Mr. Jones yn anmherthynasol hyd y lle y dywed, na chynygiais i gysoni fy ngolygiadau â rhan olaf yr adnod, a gallaswn fyned ar unwaith at hyny heb oedi gyda'r sylwadau a wnaeth. Gobeithiaf y ceidw ef o hyn allan gyda, neu gerllaw, y pwnc, er mwyn trefn, a bod mor fyr ag y medrwn; ac hefyd o herwydd y diffyg mawr sydd ynof i ysgrifenu llawer, diffyg gobeithiaf, na wyr ef ddim oddiwrtho, ac na ddaw ef byth i wybod ychwaith.

* [Yn awr at yr haeriad: a oes rhyw beth yn chwithig yn y meddwl fod Paul a Christ ar yr un gwaith; yn dioddef yn yr un achos; i atteb yr un dybenion? Gwrandawed Mr. Jones ar Paul a Phetr ar y matter. Dywed Paul, 2 Cor. i. 5, "Fod *dioddefiadau* Crist yn amlhau ynddynt, ac y mae am ei gael yn Nghrist;" Phil. iii. 10, "Fel yr adnabyddwyf ef," medd ef, "a grym ei adgyfodiad ef, a chymdeithas (*coinônian—a chyfranogiad o'i*) *ddioddefiadau* ef, gan fod wedi fy *nghyd-ffurfio d'i farwolaeth ef.*" A thrachefn, Col. v. 24, "Yr hwn wyf yn awr yn llawenychu yn fy nioddefiadau DROSOCH, ac yn cyflawni yr hyn sydd *yn ol o gystuddiau* Crist yn fy nghnawd. Dywed Petr, o hono yntau, 1 Petr ii, 21, "Canys i hyn y'ch galwyd hefyd," sef dioddef; "oblegid Crist yntau *a ddioddefodd* DROSOM *ni*, gan adael i ni *esampl* fel y dilynech ei ol ef." Os marw i atteb gofynion cyfiawnder, i dalu'r ddyled, wnaeth Crist, gadawodd i ni esampl i ganlyn ei ol ef yn hyn: ac y mae gofynion cyfiawnder heb gael eu hatteb yn *gyflawn* etto; onide, pa synwyr sydd yng ngeiriau'r Apostol, ei fod yn *cyflawni* yr hyn oedd *yn ol* o gystuddiau Crist, wrth ddioddef *dros* y y Colossiaid; ei fod yn gyfranog o'i ddioddefiadau ef? Os oedd Crist wedi talu'r cyfan, pa fodd y gallasai fod dim yn ol i'r Apostol i'w gyflawni? Pa fodd y gallasai fod yn gyfranog o *ddioddefiadau* Crist, na dim cyffelyb iddynt, wrth ddioddef *dros* y Colossiaid? A pha fodd y gall y cristnogion ddilyn esampl Crist yn hyn? Ymddengys i mi fod yma anhawsderau mawrion ar y dyb gyffredin am farwolaeth Crist. Ond o'r tu arall, y mae'r cyfan yn esmwyth ar y dyb fod Crist a'r apostolion ar yr un gwaith, yn llafurio yn yr un winllan, yn diodddef yn yr un achos—achos dyn. Ond ychwanega Mr. Jones:—"Felly yr oedd Duw yn preswylio yn Paul ac eraill yr un fath a Christ." Pa anghyssondeb all fod yn hyn? Os oes yma anghyssondeb, anghyssondeb ysgrythyrol ydyw; oblegid dywed Crist, yn ei weddi dros ei ddysgyblion, Ioan xvii., "A'r gogoniant a *roddaist* i mi, a roddais iddynt hwy, fel y byddont *un megis* yr ydym ni yn *un*: myfi *ynddynt* hwy, a thithau *ynof* fi." Dywed Ioan am yr hwn sydd yn aros mewn cariad, (Ioan iv. 12, 16,) *ei fod* "*yn aros yn Nuw, a Duw ynddo yntau.*" "Oni wyddoch chwi" medd Paul, "mai *teml* Duw ydych, a bod *Ysprydd Duw yn trigo ynoch.*" O oedd, yr *oedd* Duw yn trigo yn Paul ac eraill yr un fath a Christ. "Fel yr anfonaist fi i'r byd, felly yr anfonais innau hwythau i'r byd." Ac er gwaethaf Spinoge (Spinoza?) a phob un o'r fath, *yr oedd Duw yn Nghrist a'r Apostolion*, ac yr oeddent yn *un* hefyd, yn yr un ystyr yn gymmwys; "Fel y byddont un *megis* ninnau."

"Ond y mae holl ysgrifenwyr yr Ysgrythyrau," medd Mr. Jones, "yn cyduno i briodoli uwchafiaeth i Grist. Geilw Paul ef yn Arglwydd," &c. Gwir, ac y mae yr Undodiaid hefyd yn gwneuthur yr un peth, ac yn ei alw yn Arglwydd; ac yn teimlo hefyd, gobeithiant ei fod yn arglwyddiaethu arnynt trwy ei wirionedd; eithr nid am ei fod yn Dduw y galwant ef yn Arglwydd, ond oherwydd iddo gael ei wneuthur yn Arglwydd ac yn Grist, Act. ii. 26: "Am hynny gwybydded holl dŷ Israel yn ddiogel, ddarfod i Dduw *wneuthur* yn Arglwydd ac yn Grist yr Iesu hwn a *groeshoeliasoch* chwi." Y mae yr Undodiaid "Yn cyffesu fod Iesu Grist yn *Arglwydd*, er gogoniant Duw *Dad*," Phil. ii. 11; ac nid er ei ogoniant ei hun. Ond ni chafodd Paul erioed ei wneuthur yn Arglwydd ac yn Grist; am hynny, yr oedd Crist yn *uwch*. Eneiniwyd yr Iesu ag olew gorfoledd TU HWNT *i'w gyfeillion;* am hynny, yr oedd Crist yn uwch na'i gyfeillion. Gwnaed yr Iesu yn flaen-ffrwyth y rhai a hunasant; nid felly Paul: yr oedd yr Iesu yn uwch ynte. Y mae diwrnod hefyd wedi ei osod, yn yr hwn y barna Duw y byd trwy y gwr (*en andri—trwy y dyn*) a ordeiniodd efe: ond ni chafodd Paul erioed ei ordeinio

* Gadawodd golygydd yr *Annibynwr* yr oll a welir rhwng cromfachau allan, gyda'r esgusawd llawd fy mod i yn dywedyd fod Mr. J. allan o'r pwnc. Beth oedd genyf fi i'w wneuthur ond dilyn Mr. J., yn y ddadl neu allan o'r ddadl? Teccach o lawer fuasai i'r golygydd attal Mr. J. i grwydro na'm hattal i i fyned ar ei ol ef.—O. E.

i farnu'r byd; felly y *mae* Crist *yn uwch*. Gallaswn ychwanegu llawer yn rhagor; ond digon, digon ar hyn o bryd, er anwyled y gwaith. Os yw Mr. Jones am ragor ar y gair Arglwydd, fel ei cymhwysir i'r Iesu yn yr Ysgrythyrau, darllened fy llythyr at Mr. Jones o Langollen, yn yr *Ymofynydd* am Tach. a Rhag., 1849. *Ysgrifenais* ef at Mr. Jones o Langollen, yr hwn, er addaw yn gyhoeddus ei atteb, er hyny nis gwnaeth. Yr wyf yn awr yn *cyfeirio* yr un llythyr at Mr. Jones o Benybont (yn awr o Ferthyr): attebed ef os gwel yn dda.

Nid wyf o'r un farn a Mr. Jones chwaith, fod tadoldeb a chariad *cyffredinol Duw* wedi eu hamlygu yn yr Hen Destament; neu, o leiaf, ni ddeallid mo hynny gan yr Iuddewon. Gwn ei fod yn cael ei alw yn Dad; ond Tad ei genedl ei hun a ddeallai yr Iuddew wrth hynny: gan hynny, yr oedd angen am yr Iesu i dynu canol-fur y gwahaniaeih i lawr, ac i ddwyn yr Iuddew a'r Groegwr i deml Jehovah, i lefain Abba, Dad, trwy yr un Ysbryd. Nid oes gwahaniaeth rhwng Iuddew a Groegwr, dysgai Iesu; ond yr *oedd* gwahaniaeth pwysig dan yr hen oruchwyliaeth.

Y mae Mr. Jones yn myned etto at elfen arall, hollol ddieithr i'r pwnc, pan y dywed, "Nid oes dim eglurach na bod y bobl yn gosod Crist allan fol gwrthrych addoliad.—'Addoled holl angylion Duw ef,' Heb. i. 6. Fel yr anrhydeddai pawb y Mab fel y maent yn anrhydeddu y Tad." Yma yr wyf yn sylwi, nad yw'r gair addoliad, *ynddo ei hun*, yn profi, yn y mesur lleiaf, fod y person yn Dduw, i'r hwn y cymhwysir ef yn yr Ysgrythyrau. Pe buasai Mr. Jones yn fwy cyfarwydd â'i Fibl Hebraeg, gallasai wybod hyn. Yn yr *Ymofynydd* rhoddais gofres o'r manau y cefais y gair Hebreeg, HISTACHAVAH, y gair am addoli Duw ac eraill yn yr Hen Destament: rhoddais gyfanswm o'r manau hynny mewn taflen yno. Rhoddaf yma enghraifft neu ddwy yn gyntaf, lle y ceir y gair hwn, ac yna'r cyfanswm o'r daflen honno. Yn Gen. xlii. 6, y mae brodyr Joseph yn ei addoli ef: "A brodyr Joseph a ddaethant ac a ymgrymasant i lawr iddo ar eu hwynebau." Hebraeg, *vayishtachavw lo*; Groeg, *prosekunêsan autô*, ac a'i haddolasant ef. Yn 1 Cron. xxix. 20, y mae'r dyrfa yn bendithio Duw, ac yn addoli yr Arglwydd a'r brenhin Dafydd: "A'r holl dyrfa a fendithiasant Arglwydd Dduw eu tadau, ac a ymgrymasant i'r (Hebraeg, *vayishtachavw laihovah velamelek;* Groeg, *kai kampsantes ta gonata prosekunêsan kurio kai tô basilei;* Saes'neg, *and worshipped the Lord and the king*, a addolasant yr Arglwydd a'r brenhin). Gallaswn ychwanegu esamplau o'r fath, nes chwyddo fy ysgrif i faintioli anferth; ond digon ar hyn o bryd yw rhoddi y cyfanswm o'r daflen y cyfeiriais atti uchod; sef, fod y gair *Histachavah*, *addoli*, a gyfleithir yn aml, *ymgrymu*, yn cael ei arfer yn yr Hen Destament *ddwy waith ar bymtheg a deugain* am Dduw, ac *un waith ar ddeg a deugain* am ddynion; felly y mae'n cael ei arfer mor aml am ddynion a Duw ond *chwech gwaith* i gyd. Gwel yr *Ymofynydd* am Tach. 1852. Felly, nis gall y gair, ynddo ei hun, brofi dim; onide, prawf ormod; sef, fod y brenhin Dafydd ac amryw eraill yn Dduwiau. Gyda golwg ar engraifft gyntaf Mr. Jones, yr wyf yn sylwi fod yr hanes a roddir o'r person y gorchymynir addoliad iddo, yn y benod o'r hon y cymerodd hi, yn hollol anghysson â'i dyb ef am wrthrych addoliad; sef, "Un yn meddu ar anfeidroldeb yn natturiol, ac *nid yn ddeilliedig na rhoddedig:*" oblegid yn y benod gyntaf o'r Hebreaid, y mae'r Iesu yn cael ei osod allan yn *Fab* Duw, ac nid Duw; un wedi ei *eneinio* ag olew gorfoledd tu hwnt i'w *gyfeillion;* un wedi ei *wneuthur* yn etifedd pob peth; un wedi ei *wneuthur* yn well na'r angylion; ac yn yr adnod dan sylw, y mae yn cael ei alw yn gyntaf *anedig:* felly, un wedi ei *eni*, wedi ei *eneinio*, un wedi ei *wneuthur* yn etifedd pob peth, ac yn well na'r angylion, yw'r person dan sylw. Pwy bryd y cafodd Duw ei eni, ei eneinio, ei wneuthur yn well na'r angylion, ac yn etifedd pob peth? Efallai yr ettyb Mr. Jones, mai am nattur gyfryngol neu ddynol Crist y mae hyn yn cael ei lefaru. O'r goreu, iddo ef fel y cyfryw y mae'r addoliad hwn yn cael ei orchymyn hefyd; felly parch swyddol, ac nid addoliad dwyfol sydd yma. Yr engraifft nesaf o eiddo Mr. Jones sydd i'w gweled yn Ioan v. 23: "Fel yr anrhydeddai pawb y Mab fel y maent yn anrhydeddu y Tad." I hyn yr wyf yn atteb, fod y gair *fel*, ar ddechreu yr adnod, yn ein cyfarwyddo at ryw beth o'r blaen, fel rheswm paham yr oedd yr anrhydedd hwn i gael ei roddi i Grist; felly darllener yr adnod o flaen yr un dan sylw mewn cyssylltiad a hi, ac yna gwelir nad oes fawr anhawsdra ynddi ar dir Undodiaeth: "Canys nid yw y Tad yn barnu neb; eithr efe a roddes bob barn i'r Mab: fel yr anrhydeddai pawb y Mab fel y maent yn anrhydeddu y Tad." Dywed Mr. Jones, nad oedd dim a allasai Duw 'roddi' i fôd creuedig yn ddigonol i'w wneuthur yn wrthrych addoliad, gan nas gallasai ei wneud yn anfeidrol: ond 'rhoddedig' yw yr awdurdod sydd yn gwneud yr Iesu yn deilwng o'r anrhydedd yn yr adnod dan sylw; gan hynny, ar dir Mr. Jones ei hun, nid addoliad dwyfol sydd i ddeall wrth yr anrhydedd hwn etto, gan nas gallasai Duw 'roddi' dim i fôd creuedig yn ddigonol i'w wneuthur yn wrthrych addoliad.]

Yn awr, âf at yr hyn sydd mewn gwirionedd yn perthyn i'r pwnc. "Ni chynygiodd Mr. Evans," ebê fe, "ddangos pa fodd y cydsaif ei olygiadau ef, Athrawiaeth Duw yn nghnawd Crist, â rhanau eraill yr adnod." Y mae Mr. Jones yn anelu careg at y tŷ gwydr a adeiladodd ef i mi, heb gofio y gall mai gwydr yw ei dŷ yntau hefyd. Y mae ef yn gweled anhawsderau mawrion mewn 'cyfiawnhau' athrawiaeth

* * * cymeryd athrawiaeth i fyny i ogoniant, ac y mae yn gwaeddi allan, "Trwy drugaredd nid yw yr athrawiawiaeth wedi gadael y byd." Wrth hyn, rhaid mai yr hyn a ymddangosodd yn y cnawd, yn ol tyb Mr Jones, beth bynag oedd hyny, pa un ai athrawiaeth neu berson oedd; hono neu hwnw a gymerwyd i fyny mewn gogoniant; onide, nid yw ei sylw yn werth dim. Felly, ar dir Mr. Jones, y person, y Duw, a ymddangosodd yn y cnawd, hwnw a gyfiawnhawyd yn yr Ysbryd. A oedd angen cael ei gyfiawnhau ar Dduw? Os oedd, pwy a allasai ei gyfiawnhau ef?—"A welwyd gan angylion" neu genadon. Dywed Mr. Jones i'r angylion weled mwy o Dduw nag a wnaethent o'r blaen, yn narostyngiad a marwolaeth yr Iesu; sef, mai cariad oedd Duw. ond beth yw hyn yn perthyn i'r pwnc? A welsant hwy y person (oblegid mŷn Mr. Jones mai person sydd i ddeall) y Duw a ymddangosodd yn y cnawd? Nid person ond priodoledd yw cariad Duw —"A bregethwyd i'r cenedloedd." Gan bwy y pregethwyd ef yn Dduw? A all Mr. Jones nodi allan y bregeth? Ond na, nid felly y pregethwyd ef i'r cenedloedd, a bydded Mr. Jones ei hun, unwaith etto, yn dyst: "Beth," medd ef, "yr athrawiaeth a ddysgasai Crist? nage, ond Crist ei hun, *a hwnw wedi ei groeshoelio.*" Felly, os Crist wedi ei groeshoelio a bregethent hwy ynddnid Duw; nage, oblegid nis gellir croeshoelio Duw. B'le y mae ei dŷ gwydr ef yn awr?—"Ac a gymerwyd i fyny mewn gogoniant." Pwy allasai gymeryd Duw i fyny nac i waered? Dywedodd Mr. Jones, "Trwy drugaredd nid yw yr athrawiaeth wedi gadael y byd." Dywedaf finau, a chyda mwy o gymwysder o lawer nag ef, trwy drugaredd nid yw Duw wedi gadael y byd; nac ydyw yn wir, onide, syrthiasai y byd a'i holl drigolion i'r diddymdra tragywyddol, heb adael eu hôl yn nghreadigaeth Duw. Felly y mae anhawsderau anorchfygol ar y dyb mai Duw a ymddangosodd yn y cnawd yn ol dull Mr. Jones o esbonio. Ond gall Mr. Jones, o bosiôl, ateb trwy ddywedyd mai y cnawd, ac nid y Duw a ymddangosodd yn y cnawd, sydd yn ateb i ran olaf yr adnod. Os felly, caniataed yr un rhyddid i minau, a hawdd i mi esbonio yr adnod yn eithaf cyson. Gwn na roddais i un esboniad, efallai y dylaswn. Digon yw i mi ddywedyd yma, mai nid yr athrawiaeth a aeth i ogoniant, yn ol fy nhyb i; er, yn sicr, fod yr Iesu a aeth i ogoniant o'r un syniadau yn gymwys ag oedd pan ar y ddaear, ond y cnawd, y dyn a draddododd yr athrawiaeth, a gyfiawnhawyd yn, neu trwy yr Ysbryd, sef y gwyrthiau, yr arwyddion, a'r rhyfeddodau, a wnaeth Duw trwyddo. (B'le y cafodd Mr. J. allan fy mod i yn gwadu bodoliaeth yr Ysbryd Glan?) Hwn hefyd, y Crist croeshoeliedig, y Crist a gyfodwyd o feirw, hwn, meddaf, a bregethwyd i'r cenedloedd;—hwn hefyd a gymerwyd i fyny mewn gogoniant —hwn a welwyd gan angylion neu genadon. Gwelwyd ef, medd Paul, gan Cephas, yna gan y deuddeg, wedi hyny gan fwy na phump cant brodyr ar un waith, wedi hyny gan Iago, yna gan yr holl apostolion, ac yn ddiweddaf oll gan Paul ei hun. Y mae o'r pwys mwyaf fod y cenadon hyn wedi gweled yr Iesu ar ol ei adgyfodiad o feirw, fel y buasai iddynt ddwyn eu tystiolaeth o'r ffaith bwysig, fod yr Iesu yn fyw ar ol marw, ac yna byw fyddwn ninau hefyd; ond pa les gymaint all ddeilliaw *i ni* o glywed fod angylion, yn ol y dyb gyffredin am danynt, wedi gweled yr Iesu, nis gwn. A pheth tra rhyfedd na fuasai y ffaith yma yn cael ei choffhau gan un o'r pedwar a ysgrifenodd hanes yr Iesu. Gwel Mr. J., bellach, fy mod o'r un farn ag ef am Grist wedi ei groeshoelio fel baich pregethau yr apostolion. Ond nid person, ond amgylchiadau perthynasol i berson, damweiniau (*accidents*), ydyw hyn. Wrth glywed fod rhywun wedi ei groeshoelio a'i gyfodi o feirw, nid wyf yn gwybod rhagor am berson y cyfryw un nac mai moewol oedd, ac iddo gael ei adferu i fywyd drachefn. Y mae hyn yn fwy tebyg i athrawiaeth na pherson o lawer. Nid llawer a gawn ni yn y Testament newydd ar berson Crist. Cawn ei fod yn cynnyddu mewn corpholaeth ac mewn ffafr gyda Duw a dynion. Pe buasai ei berson yn fwy o bwys na'i athrawiaeth, cawsem fwy ar y cyntaf a llai ar yr olaf yn hanes Iesu. Ond dysgu y gwirionedd a glywodd gan Dduw oedd gwaith anwyl yr Iesu; ïe, dywed ef ei hun, "I hyn y'm ganed fel y dygwn dystiolaeth i'r gwirionedd." Felly y gwirionedd sydd fwyaf pwysig.

Terfynaf fy ysgrif faith trwy ddymuno, yn ngeiriau Mr. Jones, y bydd iddo ef a minau ddangos mai cael allan y gwirionedd yw ein prif amcan.

Chwefror, 1858. OWEN EVANS.

Faurslau Cartrfol a Thramor.

Y SENEDD YMHERODROL.

Bydd y Senedd i gyfarfod dydd Iau, y 3ydd o Chwefror. Agorir yr Eisteddfod gan y Frenhines yn bersonol. Nid yw Gweinyddiaeth Iarll Derby wedi rhoddi un hysbysrwydd etto am eu bwriadau mewn perthynas i wrthrych disgwyliad cyffredinol y wlad ar y pryd hwn, sef, Diwygiad Seneddol. Ond y maent wedi cael cyfle ddigon i wybod pa gyfnewidiadau y bwriada Mr. Bright eu cynnyg yn y gynrychiolaeth, ac i ffurfio eu cynlluniau gyda'r olwg i ddiddymu ei amcanion.

REFORM BILL MR. BRIGHT.

Mae'r cyfnewidiadau a gynnygia Mr. B. yn draffafriol i'r trefydd mawrion, yn enwedig y rhai y mae gweithfeydd ynddynt. Nid yw efe yn proffesu gofalu llawer am yr amaethwyr a pherchenogion tiroedd. Dywed fod ganddynt hwy Dŷ yr Arglwyddi i'w cynrychioli.

Barna Mr. B. y bydd y tugel *(ballot)*, dan unrhyw amgylchiadau yn sicr o gael ei ganiattau ar fyr iawn. Ac mewn perthynas i'r *qualification*, neu yr hyn fydd i wneud i fynu yr hawl i roddi *vote*; yn y siroedd, mabwysiadir cynnygiad Mr. Locke King, yr hwn hefyd a gymeradwywyd gan y mwyafrif yn Nhŷ y Cyffredin; sef, bod i bob un fyddo yn talu £10 o rent i gael *vote*. Ac yn y trefydd, pob un fyddo yn cael ei râto i hyn a hyn yn Nhâl y Tlawd. A golygir y byddir wrth hyn i ychwanegu nifer y *voters* yn y trefydd mawr a'r gweithfeydd i dri chymaint ag yw yn bresennol; mewn lleoedd eraill, yn ddau cymaint.

Ond y peth mwyaf tarawiadol yn y Bill newydd yma ydyw, ei fod yn cynnyg gwaghau 130 o eisteddleoedd seneddol, a'u rhanu rhwng cynifer o drefydd mwy poblog na'r rhai a feddent y ragorfraint yn flaenorol. Hyny yw, ar fod 56 o fwrdeisdrefi, y rhai mae eu poblogaeth dan 8000; y rhai rhyngddynt, ydynt yn awr yn anfon 87 o aelodau i'r senedd, i gael eu difreinio. A bod 61 o fwrdeisdrefydd yn cynnwys llai na 16000 o drigion, o hyn allan i gael anfon dim ond bob o un cynrychiolwr, yn lle dau fel yn bresennol. Cynnygir rhanu yr eisteddleoedd a wagheid felly rhwng nifer o'r trefydd mwyaf poblog, mewn cyfartaledd i rifedi eu trigolion.

Nid ydym ni ar fedr rhoddi beirniadaeth ar y Bill. Gwneir hyny ond odid yn ddigon diarbod yn Nhŷ y Cyffredin. Nid gall Mr. Bright ddisgwyl llai. Nid yw ef yn arbed neb. Rhaid addef bod anhawsderau yn gysylltiedig a'r pwnc o gynrychiolaeth. Diau mai y drefn oreu er cyrhaeddyd gwelliant gwladwriaethol, a llywodraeth dda, ac, o ganlyniad, y goreu er lles pawb, fyddai cynrychioli *deall*, *pwyll*, a *synwyr* y wlad. Ond sut mae cael a diogelu hyny? Sicr yw nad yw y gwirionedd, ac nad yw pwyll a synwyr bob amser, nac yn fynychaf gyda'r lluaws. Ar y tu arall, y mae yn llawer mwy rhesymol fod dynion—bodau deallgar—i gael eu cynrychioli, nag aur ac arian neu dai a thiroedd.

Nis gallwn lai na theimlo bod gwelliant gwladwriaethol a llesiant y cyffredin, yn ymddibynu mwy ar ymdaeniad gwybodaeth ac egwyddorion cyfiawnder a brawdoliaeth nag ar unrhyw gyfnewidiadau a wneler yn y gynrychiolaeth. Nid yw cynnygiad Mr. Bright yn debyg o gael derbyniad croesawus yn y senedd. Dywedir hefyd fod hyd yn oed y *Radicals* yn rhannolig yn eu golygiadau ar y pwnc.

DYLEDAD GWASANAETH POLITICAIDD YR EGLWYS SEFYDLEDIG.

Y mae yn adnabyddus yn mhlith hyny o'n darllenwyr ag ydynt yn gyfarwydd a'r Llyfr Gweddi Gyffredin a threfn addoliad Eglwys Lloegr, fod gwelliant gosoded-ig a ffurfiau gweddi, gydâ diolch neu ympryd, ar y 5ed o Dachwedd. y 30ain o Ionawr, a'r 29ain o Fai. Y mae'r tair gwyl yn dwyn perthynas â brenhinlin anffodus y *Stuarts*. Appwyntiwyd y cyntaf er diolchgarwch oesol am y waredigaeth gafodd Iago I- a'i barliament, rhag gael eu chwythu i'r awyr gan Guy Fawkes ac eraill yn y *Gunpowder Plot*; ac ar yr un pryd i ddiolch am ddyfodiad ei or-wyr (Gwilym III.) i yru yr wyr (Iago II.) allan o'i frehiniaeth.

Yr ail a appwyntiwyd er gweddi ac ympryd (a chyffesu ein pechodau) o herwydd merthyrdod Siarls I., hyny yw, o herwydd iddo gael ei drechu mewn rhyfel a'i osod i

farwolaeth am uchel-fradwriaeth yn erbyn rhyddid a breiniau'r wlad. Yr olaf a appwyntiwyd ar yr un prvd i ddiolch i Dduw am ddychweliad Siarls II. i'r orsedd—brenhin hynod o anfoesol a hollol ddigaracter, fel y tystia hanes ei deyrnasiad.

Yn awr y mae yn dda genym hysbysu bod y gwyliau hyn, ynghyd a'r gwasanaeth cyssylltiedig a hwynt, wedi cael eu dileu dros byth, drwy orchymyn y Frenhines dyddiedig Ionawr 17eg, 1859, a hyny ar ddeisyfiad y ddau Dŷ o Barliament.

Dyma ddechreu da ar y gorchwyl o ddiwygio y Llyfr Gweddi Gyffredin. Dylai Eglwyswyr cydwybodol yn anad neb fod yn ddiolchgar i Iarll Derby am iddo gynghori y Frenhines i gydsynio â'r cais, ac i symud yr hen gabledd o'u mysg.

TYWYSOG CYMRU YN RHUFAIN.

Y mae Tywysog Cymru newydd fyned i Rufain, lle y dywedir ei fod yn bwriadu aros am rai misoedd i gael gweled hynafiaethau yr hen brif ddinas enwog, a golygfeydd hynod eraill yn yr Ital. Y mae rhai o'r newyddiaduron—y rhai tra-chrefyddol—wedi bod yn ocheneidio uwchben hyn, rhag ofn y bydd i'r tywysog ddychwelyd yn ol yn hapus Pabydd. Ond nid yw agwedd pethau yn bresennol yn Rhufain yn rheddi nemawr o le i neb feddwl yn dda am grefydd a chrefyddoldeb ei llywodraethwyr. Mae eu gormes a'u rhagrith wedi dwyn y trigolion ow cashau a'u melldithio.

Y CYFANDIR.

Mae swn am ryfel wedi tawel[illegible] cyr wythnosau diweddaf. Nid yw [illegible] ydd bod Emprwr Ffrainc yn gyfrwys gy[illegible]od yn uchel-geisiol. Tebyg ei fod wedi canfod gwrthwynebiad i'w amcanion lle yr oedd yn disgwyl am gyd-syniad; ac ei fod hwyrach yn tynu ei gyrn i mewn. Mae rhai o'r dynion mwyaf cyfrifol yn Ffrainc wedi cyhoeddi yn bendant eu bod yn gwbl yn erbyn myned i ryfel âg Awstria yn achos yr Italiaid, ac y gwyddant fod teimlad corph y wladwriaeth yr un modd—mai heddwch oedd Ffrainc yn geisio, a llonyddwch. Dywedir i M. Thiers, hanesydd Ffrainc, ddatgan ei farn, ei bod yn fwy na thebyg y byddai i'r fath ryfel yn y pendraw, i droi yn golled mawr ac yn anghlod i Ffrainc. Ac fe wyr llawer o'n darllenwyr bod newyddiaduron Lloegr, yn nghyd a'n areithwyr cyhoeddus, wedi llefaru yn uchel ac yn unllais yn erbyn y fath ryfel, ac yn erbyn y rhai sydd yn ceisio ei ennyn.

Dichon bod yr amgylchiadau hyn wedi effeithio i ryw radd ar feddwl hunan-benderfynol Louis Napoleon; ac mai dyna'r achos o fod y *Moniteur*, yr hwn a gyfrifir yn gyfrwng y Llywodraeth, wedi newid ei lais. Ond y mae dim ond y swn am ryfel eisioes wedi gwneud niwed mawr i fasnach y cyfandir. A serch y cwbl a adroddwyd, y mae'r sisial heb ddarfod, fod rhyfel *i* gymeryd lle yn yr Ital yn nghwrs y gwanwyn, a bod Ffrainc *yn* gwneud parotoadau i ryfel. Mae yn sicr bod Sardinia wedi dangos parodrwydd i bigo cynhen, a bod y Lombardiaid yn ddigon anesmwyth ac yn ddigon ffol; ac y mae yn sicr hefyd bod Awstria yn ddiweddar wedi ychwanegu ei byddin yn yr Ital i gryfdwr anarferol.

PRWSSIA.

Dydd Iau y 27ain o Ionawr, esgorodd y Dywysoges Frederick William o Prwssia (merch hynaf ein Brenhines), ar Dywysog.

Barddoniaeth.

"BETH YW GWIRIONEDD?"
Ioan xviii. 38.

"Beth yw gwirionedd?"—Llais o'r nef:
Gwyn fyd a wrendy ei lafar ef;
Ei ffyrdd a'i holl weithredoedd fydd,
O hwyl yn deg, fel haul y dydd.

"Beth yw gwirionedd?"—Addurn hael
O rawd: a gwn mae'n rhaid ei gael,
Cyn meddu llwyr ddedwyddwch llawn,
Yn unrhyw fynwes—perffaith ddawn.

"Beth yw gwirionedd?"—Elw glân:
Mae'n berl na losgir yn y tân;
Yn eithaf cywir bydd bob darn,
Ac yn ddi-ogel ddydd y farn.

"Beth yw gwirionedd?"—Nefol rawd:
Mae'n sail i hedd rhwng brawd a brawd.
Fe saif yn gadarn fel y graig,
Rhag rhuthrau gorwyllt tonnau'r aig.

"Beth yw gwirionedd?"—Gwawl i'n byd:
Fe haeddai 'i chwilio ar bob pryd;
Ei addef a'i amddiffyn ef,
O allu'n llwyr, diwall ein llef.

"Beth yw gwirionedd?"—Eglur nod:
Mae llawn cysondeb arno'n bod;
Mae'n well nag aur, na mawredd byd;
I'w iawn feddiannu rhown ein bryd.

"Beth yw gwirionedd?"—'Gwyddor fad,
A ladd bob twyll ac hyllig frad;
Ac O, na wawriai'r amser llon,
I'r Gwir orchfygu'r byd o'r bro[illegible]

Aberdâr. EIDDIL G[illegible]NON.

PENYBONT: ARGRAFFWYD GAN WILLIAM LEYSHON.